# Cyngor Sir Ceredigion

# Cynllun Ariannu Ysgolion

**1.0 RHAGAIR I'R CYNLLUN .......... 4**
**2.0 CYFLWYNIAD .......... 5**
2.1 DIBEN Y CYNLLUN .......... 5
2.2 CYMHWYSO'R CYNLLUN I YSGOLION A GYNHELIR .......... 5
2.3 SWYDDOGAETH YR AWDURDOD LLEOL .......... 5
2.4 DOSBARTHU'R GYLLIDEB .......... 6
**3.0 RHEOLAETH ARIANNOL .......... 9**
3.1 CYFRIFOLDEB A CHYMHWYSO MESURAU RHEOLAETH ARIANNOL I YSGOLION .......... 9
3.2 DARPARU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU ARIANNOL .......... 9
3.3 TALU CYFLOGAU A THALU BILIAU .......... 10
3.4 RHEOLI ASEDAU .......... 10
3.5 POLISÏAU CYFRIFYDDU (GAN GYNNWYS GWEITHDREFNAU AR GYFER DIWEDD Y FLWYDDYN) .......... 11
3.6 DILEU DYLEDION .......... 12
3.7 SAIL CYFRIFYDDU .......... 12
3.8 CYFLWYNO CYNLLUNIAU CYLLIDEB .......... 12
3.9 CYNLLUNIO GWELLIANT .......... 13
3.10 GWERTH GORAU .......... 13
3.11 TROSGLWYDDO CYLLID RHWNG PENAWDAU .......... 14
3.12 ARCHWILIO - CYFFREDINOL .......... 14
3.13 ARCHWILIADAU ALLANOL AR WAHÂN .......... 15
3.14 CRONFEYDD .......... 15
3.15 COFRESTR BUDDIANNAU BUSNES .......... 16
3.16 GOFYNION PRYNU, TENDRO A CHONTRACTIO .......... 16
3.17 CYMHWYSO CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH (CLGAU) I YSGOLION .......... 17
3.18 CYLLID CANOLOG A CHLUSTNODI .......... 18
3.19 GWARIANT AT DDIBENION YR YSGOL .......... 18
3.20 GWARIANT CYFALAF O GYFRANNAU CYLLIDEB .......... 19
3.21 CYLLID GRANT .......... 19
**4.0 RHANDALIADAU'R GYFRAN GYLLIDEB; TREFNIADAU BANCIO .......... 20**
4.1 COD YMARFER AR GYFER RHEOLI ADNODDAU ARIANNOL .......... 20
4.2 MYNYCHDER Y GYFRAN GYLLIDEB .......... 20
4.3 CYLLIDEB I'W THALU I YSGOLION SY'N RHEDEG EU CYFRIFON BANC EU HUNAIN .......... 20
4.4 CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU AR GYFER Y GYLLIDEB DDIRPRWYEDIG .......... 21
4.5 TREFNAU SY'N RHAID EU DILYN GAN YSGOLION SY'N RHEDEG EU CYFRIFON BANC EU HUNAIN .......... 23
4.6 CYFRANNAU CYLLIDEB I YSGOLION SY'N CAU .......... 23
4.7 CYFRIFON IMPREST ARIAN MÂN YSGOLION .......... 23
4.8 YSGOLION YN BENTHYG .......... 23
**5.0 TRIN GWARGEDION A MANTOLENNI DIFFYG A GWYD MEWN PERTHYNAS Â CHYFRANNAU CYLLIDEB .......... 24**
5.1 YR HAWL I DDWYN YMLAEN FANTOLENNI GWARGED .......... 24
5.2 ADRODD AR Y MODD Y BWRIEDIR DEFNYDDIO MANTOLENNI GWARGED .......... 24
5.3 LLOGAU AR FANTOLENNI GWARGED .......... 24
5.4 GORFODAETH I DDWYN YMLAEN FANTOLENNI DIFFYG .......... 24
5.5 MANTOLENNI DIFFYG .......... 25
5.6 CYNLLUNIAU BENTHYG .......... 27
5.7 MANTOLENNI YSGOLION SY'N CAU AC YSGOLION SY'N DOD YN LLE RHAI A FU .......... 27
5.8 MYND ATI FEL UNDEB CREDYD .......... 27
**6.0 INCWM .......... 28**
6.1 INCWM CYFFREDINOL .......... 28
6.2 INCWM O OSOD .......... 28
6.3 INCWM O FFIOEDD A THALIADAU .......... 28
6.4 INCWM O WERTHU ASEDAU .......... 29
6.5 TREFNAU GWEINYDDOL AR GYFER CASGLU INCWM .......... 29
6.6 INCWM O WEITHGAREDDAU I GODI ARIAN .......... 29
**7.0 CODI TALIADAU O GYFRANNAU CYLLIDEB YSGOL .......... 29**
7.1 DARPARIAETH GYFFREDINOL .......... 30

7.2 Amgylchiadau lle codir taliadau ..... 30
**8.0 TRETHIANT ..... 32**
8.1 Treth Ar Werth ..... 32
8.2 Cynllun Trethiant y Diwydiant Adeiladu ..... 32
**9.0 DARPARU GWASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU GAN YR AWDURDOD LLEOL ..... 33**
9.1 Darparu Gwasanaethau o Gyllidebau Wrth Gefn Canolog ..... 33
9.2 Darparu Gwasanaethau a Brynir yn ôl oddi wrth yr Awdurdod Lleol gan Ddefnyddio Cyllidebau Dirprwyedig ..... 33
9.3 Pecynnu ..... 33
9.4 Cytundebau Lefel Gwasanaeth ..... 33
**10.0 MENTER CYLLID PREIFAT (PFI) ..... 34**
**11.0 YSWIRIANT A RHEOLI RISGIAU ..... 34**
11.1 Gwarchodaeth Yswiriant ..... 35
11.2 Ysgolion sy'n Dymuno Cael Yswiriant Ychwanegol ..... 35
11.3 Atebolrwydd Llywodraethwyr ..... 35
**12.0 AMRYWIOL ..... 35**
12.1 Hawl i Gael Mynediad at Wybodaeth ..... 36
12.2 Treuliau Llywodraethwyr ..... 36
12.3 Cyfrifoldeb am Gostau Cyfreithiol ..... 37
12.4 Iechyd a Diogelwch ..... 37
12.5 Hawl y Prif Swyddog Cyllid i Fod yn Bresennol ..... 37
12.6 Dirprwyo i Ysgolion Newydd ..... 38
12.7 Opsiwn i Dderbyn Eitem o Gyllid Dirprwyedig ..... 38
12.8 Anghenion Dysgu Ychwanegol ..... 38
12.9 Chwythu'r Chwiban ..... 38
12.10 Amddiffyn Plant ..... 38
12.11 Prydau Ysgol ..... 39
**13.0 CYFRIFOLDEB AM ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW ..... 40**
13.2 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ..... 40
13.3 Ceginau ..... 40
**ATODIAD 1 ..... 40**
**ATODIAD 2 ..... 42**
**ATODIAD 3 – Y GWERTH GORAU I YSGOLION – EGWYDDORION CYFFREDINOL ..... 44**
Cyflwyniad ..... 45
Egwyddorion Cyffredinol ..... 45
**ATODIAD 4 – CYFRIFOLDEB AM ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW ..... 46**
Atodiad 4.1 ..... 47
Atodiad 4.2 ..... 49

## 1.0 Rhagair i'r Cynllun

Mae a.48 o Ddeddf SAFfY yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi cynllun yn ymwneud ag ariannu eu hysgolion. Cyflwynir y gofynion statudol o ran cynnwys cynlluniau, ymgynghoriad yn eu cylch a'u cyhoeddi yn rhan IV o Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

Yng Ngheredigion, cafodd y Cynllun ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Lleol, sy'n rheoli'r perthynas ariannol rhwng ysgolion a gynhelir a'r Awdurdod Lleol, ei gyhoeddi ar 31ain Mawrth 1996.

Mae canllawiau ychwanegol ynghylch Cynlluniau Ariannu Ysgolion wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Reoliadau newydd yn 2010. Mae hyn wedi peri bod angen i Gynllun Ceredigion ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Lleol gael ei ddiwygio a'i ddisodli'n gyfan gwbl gan y Cynllun Ariannu Ysgolion canlynol.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y Cynllun hwn at:

Chris Macey
Pennaeth Gwasanaethau Cyllid
Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol,
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE
ChrisHywel.Macey@ceredigion.gov.uk

# 2.0 Cyflwyniad

## 2.1 Diben y Cynllun

2.1.1 Mae Cynllun Ariannu Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion (“y Cynllun”) yn diffinio’r perthynas ariannol rhwng Cyngor Sir Ceredigion (yr Awdurdod Lleol) a’r ysgolion a gynhelir ganddo. Manyla’r Cynllun ar y trefniadau rheolaeth ariannol y mae gofyn i’r Awdurdod Lleol a’i ysgolion gadw atynt. Dylai’r Cynllun gael ei ystyried ynghyd â dogfennau polisi a chanllawiau addysg, gan gynnwys dogfen Cyngor Sir Ceredigion ‘Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig’.

2.1.2 Mae’r fframwaith ar gyfer y Cynllun hwn wedi’i seilio ar ddarpariaethau deddfwriaethol a geir yn adrannau 45-53 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf SAFfY) ac y manylir ymhellach arnynt yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

## 2.2 Cymhwyso’r Cynllun i Ysgolion a Gynhelir

2.2.1 Mae’r cynllun hwn yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir yng Ngheredigion. Mae enwau’r ysgolion hyn fel yr oeddent ar 1af Ebrill 2012 wedi’u rhestru yn Atodiad 1. Nid yw’r Cynllun yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion gan nad oes gan yr unedau hyn gyllidebau dirprwyedig.

2.2.2 Lle bo Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig neu ei Reolau Sefydlog yn gwrthdaro â Chynllun Ariannu Ysgolion yr Awdurdod Lleol, y Cynllun sydd oruchaf. Bwriedir i’r Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig helpu ysgolion i sicrhau’r arfer orau ac maent yn ffurfio rhan o’r trefniadau mewnol a ddisgwylir. Mae gofyn i gyrff llywodraethol gadw at y Rheoliadau Ariannol hyn a’u dwyn i sylw’r holl staff yn yr ysgol.

## 2.3 Swyddogaeth yr Awdurdod Lleol

2.3.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol rychwant eang o swyddogaethau statudol yn ymwneud â darparu Addysg, a’r rheini’n cynnwys dyletswydd i hybu safonau uchel. Y mae’n gyfrifol am osod y fframwaith polisi ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol ac am reoli’r rhan o’r adnoddau ar gyfer Addysg y bydd yn eu cadw’n ganolog yn unol â rheoliadau.

2.3.2 O dan a.46 o’r SAFfY, yr Awdurdod Lleol sy’n pennu maint Cyllideb yr Ysgolion Unigol (CYU).

2.3.3 Yr Awdurdod Lleol sy’n gyfrifol am gynnal yr ysgolion a gwmpesir gan y cynllun, ac mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i gwrdd â’r holl dreuliau o’u cynnal (ac eithrio achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir lle mae rhai o’r treuliau, yn ôl y statud, i’w talu gan y corff llywodraethol). Rhan o’r ffordd y bydd Awdurdod yn cynnal ysgolion yw’r system ariannu a roddwyd yn ei lle gan a.45 hyd 53 o Ddeddf SAFfY.

## 2.4 Dosbarthu'r Gyllideb

2.4.1 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu symiau o'r CYU ymhlith yr ysgolion i gyd a gynhelir ganddo, yn ôl fformiwla sy'n cyd-fynd â rheoliadau wedi'u gwneud gan Lywodraeth Cymru[1], ac sy'n caniatáu cyfrifo cyfran gyllideb i bob ysgol a gynhelir. Dirprwyir y gyfran gyllideb hon wedyn i gorff llywodraethol yr ysgol dan sylw, heblaw bod yr ysgol yn un newydd nad yw eto wedi derbyn cyllideb ddirprwyedig, neu fod yr hawl i gyllideb ddirprwyedig wedi cael ei hatal yn unol ag a.51 o Ddeddf SAFfY. Mae'r mesurau rheolaeth ariannol y mae dirprwyo yn gweithio o'u mewn yn cael eu cyflwyno yn y ddogfen hon ac maent yn unol ag a.48 o Ddeddf SAFfY. Mae'n rhaid i bob diwygiad o gynllun yr Awdurdod Lleol gael ei gymeradwyo gan Fforwm yr Ysgolion neu gan Lywodraeth Cymru, a fydd â'r pŵer i addasu neu orfodi cynllun.

**Swyddogaeth y Corff Llywodraethol**

2.4.2 Mae cyrff llywodraethol yn gorfforedig ac mae ganddynt eu dyletswyddau a'u pwerau statudol eu hunain. Yn benodol, mae gofyn i'r corff llywodraethol arwain yr ysgol gyda golwg ar hybu safonau uchel o gyflawniad addysgol. Mae gan y corff llywodraethol gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth a pholisïau'r Awdurdod Lleol.

2.4.3 Cyfrifoldeb corff llywodraethol pob ysgol fydd rheoli ei gyfran gyllideb er mwyn gweithredu Cynllun Datblygu'r Ysgol.

2.4.4 Bwriad y Cynllun yw caniatáu cymaint o ryddid i lywodraethwyr a phenaethiaid benderfynu materion wrth reoli adnoddau dirprwyedig ag sy'n gyson â gallu'r ALI i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

2.4.5 Yn amodol ar y darpariaethau yn y cynllun hwn, caiff cyrff llywodraethol wario cyfrannau cyllideb at ddibenion eu hysgol. Cânt hefyd wario cyfrannau cyllideb ar unrhyw ddibenion ychwanegol a bennir gan Lywodraeth Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan a.50 (3), Deddf SAFfY.

**Dirprwyo Pwerau i'r Pennaeth**

2.4.6 Mae'n rhaid i'r corff llywodraethol benderfynu pa bwerau ariannol y maent am gael eu dirprwyo i'r pennaeth. Bydd llywodraethwyr am gydbwyso'r angen i'r ysgol redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd â'r ffaith mai gyda hwy y mae cyfrifoldeb yn gorwedd. Mae angen cyrraedd cydbwysedd synhwyrol, a ddylai gynnwys adrodd yn ôl yn llawn i'r llywodraethwyr ar y defnydd a wneir o bwerau dirprwyedig ar sail ysbeidiol briodol. Mae gofyn i'r corff llywodraethol ystyried i ba raddau y mae am ddirprwyo'i bwerau ariannol i'r pennaeth ac aelodau eraill o dimau arweinyddol ei Ysgol a chofnodi ei benderfyniadau (ac unrhyw ddiwygiadau) yn ymwneud â dirprwyo pwerau yng nghofnodion y corff llywodraethol.

2.4.7 Bydd gan ysgol newydd gyllideb ddirprwyedig o ddyddiad agor yr ysgol heblaw y pennir fel arall o fewn darpariaethau a. 49(3) o Ddeddf SAFfY.

[1] a. 47 o Ddeddf SAFfY

**Atal Dirprwyad**

2.4.8 Os torrir darpariaethau'r Cynllun yn sylweddol neu'n gyson, os nad yw cyfran gyllideb wedi cael ei rheoli'n foddhaol neu os ymyrrir yn unol ag a. 14 ac a. 17 o Ddeddf SAFfY, yna gellir atal dirprwyad yn amodol ar hawl i apelio at Lywodraeth Cymru heblaw lle gweithredir goruchwyliaeth o dan a.17 o Ddeddf SAFfY.

2.4.9 Caiff yr Awdurdod Lleol atal hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig, drwy roi rhybudd i'r corff llywodraethol, yn ysgrifenedig, os yw darpariaethau'r Cynllun Ariannu Ysgolion (neu reolau a roddir mewn grym gan y cynllun) wedi cael eu torri'n sylweddol neu'n gyson, neu os nad yw'r gyfran gyllideb wedi cael ei rheoli'n foddhaol. Y tebyg yw y gwnaiff yr Awdurdod Lleol anfon llythyr Rhybudd o Bryder at gorff llywodraethol ysgol yn y lle cyntaf lle, ym marn y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, mae angen gweithredu i ddiogelu sefyllfa ariannol yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol. Bydd rhybudd o'r fath yn cyflwyno'r rhesymau a'r dystiolaeth am ei wneud a gall osod ar y corff llywodraethol gyfyngiadau, terfynau neu waharddiadau o ran rheoli cyllid sydd wedi'i ddirprwyo iddo. Amlinellir y broses y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ddilyn wrth atal dirprwyad yn Atodiad 2. Mae hawl i apelio at Lywodraeth Cymru. Gellir hefyd atal hawl ysgol i gyfran gyllideb ddirprwyedig am resymau eraill.

**Diwygio'r Cynllun**

2.4.10 Mae Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am fonitro a chloriannu'r cynllun, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw atborth a geir gan ysgolion. Yr Adran hon sy'n gyfrifol hefyd am ddiwygio'r cynllun yng ngolwg unrhyw ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd.

2.4.11 Bydd diwygiadau arfaethedig i'r cynllun yn destun ymgynghoriad â'r holl benaethiaid a chyrff llywodraethol yr holl ysgolion. Mae'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau gael eu cymeradwyo gan Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.

2.4.12 Caiff Gweinidog Cymru gymeradwyo unrhyw gynigion o'r fath, neu eu cymeradwyo yn amodol ar eu haddasu, neu wrthod cymeradwyo unrhyw gynigion o'r fath.

**Gofynion Cyhoeddi**

2.4.13 Cyflwynir y gofynion manwl o ran cyhoeddi'r Cynllun a datganiadau ariannol mewn rheoliadau. Cyflenwir copi o'r Cynllun i gorff llywodraethol pob ysgol ac i'r pennaeth. Mae'r Cynllun hefyd i'w gael ar y rhyngrwyd (www.ceredigion.gov.uk).

2.4.14 Yn unol ag a.52 o Ddeddf SAFfY, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi datganiad bob blwyddyn yn cyflwyno manylion o'i Gyllideb Ysgolion Unigol arfaethedig, gan ddangos:-

- y symiau sydd i'w cadw'n ganolog
- cyfran gyllideb pob ysgol
- y fformiwla a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyfran gyllideb pob ysgol

- y cyfrifiad manwl ar gyfer pob ysgol.

2.4.15 Ar ôl pob blwyddyn ariannol bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi datganiad gan ddangos

- gwariant ysgolion unigol
- gwariant a gadwyd yn ganolog
- mantolenni a ddelir mewn perthynas â phob ysgol.

# 3.0 Rheolaeth Ariannol

## 3.1 Cyfrifoldeb a Chymhwyso Mesurau Rheolaeth Ariannol i Ysgolion

3.1.1 Dylid darllen yr adran hon ynghyd â 'Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig', y mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â hwy.

3.1.2 Yn ymarferol, bydd y systemau rheolaeth ariannol yn amrywio yn ôl maint, trefniadaeth ac anghenion penodol pob ysgol. Eto, mae angen i bob corff llywodraethol ddatblygu trefniadau rheolaeth cadarn mewn perthynas ag incwm a gwariant ey hysgolion a'r defnydd o adnoddau. Er mwyn cyrraedd y nod hwn, mae'n rhaid datblygu cynllunio ariannol eglur a systemau rheolaeth ariannol.

3.1.3 Bydd ar bob system sy'n rheoli incwm, gwariant, asedau neu rwymedigaethau'r ysgol angen rhai neu'r cwbl o'r mesurau rheolaeth canlynol er mwyn cyflawni amcanion ariannol cyffredinol yr ysgol:

3.1.4 Dylai'r mesurau rheolaeth allweddol gynnwys:-

- trefniadaeth
- cyfrifoldeb
- personél
- etheg fusnes
- gwahanu dyletswyddau
- awdurdodi
- goruchwyliaeth
- monitro ac adrodd

3.1.5 Mwyaf i gyd o swyddogaethau y mae ysgol yn dewis ymgymryd â hwy ei hun, mwyaf effeithiol i gyd y bydd angen i'w phrosesau fod i sicrhau bod pob trafodiad yn cael ei gofnodi, ei adrodd a'i fonitro'n fanwl gywir yn erbyn cynlluniau a chyllidebau.

## 3.2 Darparu Gwybodaeth ac Adroddiadau Ariannol

3.2.1 Y mae'n ofynnol i ysgolion roi i'r Awdurdod Lleol fanylion o wariant ac incwm disgwyliedig a gwirioneddol ar ffurf ac ar adegau a bennir gan yr Awdurdod Lleol. Dichon na fydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn bod y fath wybodaeth ariannol yn cael ei chyflwyno yn amlach nac unwaith bob tri mis, heblaw am yr hyn sy'n gysylltiedig â threth neu gysoniad bancio, heblaw bod yr Awdurdod Lleol wedi hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig ei fod o'r farn:

- fod sefyllfa ariannol yr ysgol yn golygu bod angen cyflwyno'n amlach; neu
- fod yr ysgol mewn trafferthion neu'n destun adolygiad; neu
- fod yr ysgol yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu.

Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i ysgolion sy'n rhan o system ariannol ar lein yr Awdurdod Lleol.

3.2.2 I ysgolion sy'n ymgymryd â Chytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cyllid a Gwasanaethau

Cyflogres/Personél bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol ill dau yn cyflawni eu rhannau eu hunain o'r swyddogaethau fel a bennir ac a gytunir yn y CLG.

3.2.3 I ysgolion sy'n rhedeg eu cyfrif banc eu hunain mewn perthynas â'u cyllideb ddirprwyedig, mae'r mathau o wybodaeth ac adroddiadau y bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn amdanynt fel a ganlyn:

- darparu adroddiadau tymhorol ar eu hincwm a'u gwariant disgwyliedig am y flwyddyn gan ddangos yn eglur bob rhwymedigaeth hysbys, ar ffurf wedi'i chytuno i'w darparu gan yr Awdurdod Lleol;
- darparu adroddiadau TAW misol i'r Awdurdod Lleol erbyn y dyddiad penodedig a chytuno i indemnio'r Awdurdod Lleol rhag unrhyw gosbau a osodir gan y swyddfa tollau tramor a chartref o ganlyniad i ddatganiadau anghywir;
- darparu adroddiadau cysoniad banc misol i'r Awdurdod Lleol ar ffurf i'w chytuno â'r Awdurdod Lleol;
- angen sicrhau bod pob cyfrif wedi'i gysoni a'i fantoli erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, fel y gall yr Awdurdod Lleol gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

3.2.4 I'r ysgolion hynny sy'n cyflawni eu swyddogaethau cyflogres a thalu drostynt eu hunain, mae'r Awdurdod Lleol yn mynnu cael ei indemnio rhag unrhyw hawliad gan gyflogedigion neu Gyllid y Wlad. I'r perwyl hwn dichon y bydd yr ysgol yn dymuno prynu polisi yswiriant. Yr ysgol fydd piau'r cyfrifoldeb am gwblhau pob taliad a ffurflen drethi i Gyllid y Wlad, yn ogystal ag i'r Asiantaeth Bensiynau ac unrhyw gorff arall lle mae didyniadau wedi cael eu prosesu. Bydd angen datganiadau misol ar yr Awdurdod Lleol er mwyn darparu gwybodaeth gyflawn i wahanol sefydliadau (gan gynnwys y llywodraeth) ynghylch costau cyflogedigion.

## 3.3 Talu Cyflogau a Thalu Biliau

3.3.1 Dichon y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnig CLGau ar gyfer talu cyflogau a chyrchu a thalu nwyddau a gwasanaethau, yn ôl y telerau a'r manylion a gynhwysir yn y CLG. Caiff yr holl gyfrifoldebau, trefniadau gweinyddol a threfniadau penodi mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn eu cytuno ag ysgolion ar adeg cytuno a llofnodi'r CLG.

## 3.4 Rheoli Asedau

3.4.1 Un o ofynion Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Lleol yw y caiff stocrestrau eu cynnal gan bob Adran. Gall rhai mathau o offer a ddelir gan ysgol fod yn werthfawr, yn ddeniadol ac yn gludadwy. Gall fod yn briodol, felly, gynnal stocrestr o'r HOLL bethau y prisir eu gwerth yn £250, neu fwy, i gynnwys grwpiau o ddodrefn e.e. '25 o ddesgiau a chadeiriau'. Byddai cofnod o'r fath yn profi'n ddefnyddiol i gadw rheolaeth ddigonol ar asedau'r ysgol; yn helpu i nodi unrhyw golledion at ddibenion yswiriant; ac yn cael ei ddefnyddio'n gofnod o'r offer sydd ar gael yn yr ysgol.

3.4.2 Gallai'r prif gopi o'r stocrestr gael ei gadw gan Swyddog Gweinyddol neu Bennaeth yr Ysgol, a fyddai'n gyfrifol am ei diweddaru wrth i nwyddau newydd gael eu derbyn, neu wrth gael gwared ar hen offer neu offer nad oes mo'u hangen. Yn ddelfrydol, dylai cofnodion stocrestr fod 'fesul ystafell', a dylent gael eu cwblhau gan yr athro priodol.

3.4.3 Dylai copïau priodol o'r stocrestr gael eu cadw hefyd gan bob athro, a 'chyfrifiad stoc' rheolaidd yn cael ei wneud ganddynt, naill ai ar ddechrau neu ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Mae cofnod stocrestr ar gael gan Adran Archwilio Mewnol y Cyngor y gellwch gysylltu â hi ar (01970) 633327.

3.4.4 Pryd bynnag yr eir ag eiddo'r ysgol oddi ar safle'r ysgol (e.e. camera ar gyfer taith faes) dylid llofnodi amdano a marcio cofrestr yn briodol.

3.4.5 Dylai penaethiaid gwblhau ffurflen gwaredu asedau, sy'n ffurfio rhan o gofnodion stocrestr y Cyngor, fel a nodir ym mhwynt 3.4.2 uchod.

- Dylai penaethiaid baratoi rhestr, sy'n nodi mewn manylder digonol y nwyddau a/neu'r offer diangen i'w gwaredu.
- Dylid cylchredeg y rhestr hon, drwy'r Adran Addysg, ymhlith holl ysgolion yr Awdurdod Lleol gan wahodd ceisiadau, erbyn dyddiad penodol, am drosglwyddo'r eitemau. Os derbynnir ceisiadau yna trosglwyddir eitemau yn unol â'r ceisiadau a threfnir Trosglwyddiad Cyllid Mewnol priodol gan yr Adran Addysg.
- Oni cheir dim ceisiadau, bydd yr Adran Addysg wedyn yn trefnu gwerthu neu waredu'r eitemau diangen. Caiff unrhyw werthiant ei gredydu i gyllideb yr ysgol sy'n gwaredu.

## 3.5 Polisïau Cyfrifyddu (gan gynnwys Gweithdrefnau ar gyfer Diwedd y Flwyddyn)

***Polisïau Cyfrifyddu***

3.5.1 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol yw gwneud trefniadau i'w fusnes ariannol gael ei weinyddu'n briodol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion (y Prif Swyddog Cyllid) gyfrifoldeb am weinyddu'r busnes hwnnw. Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr Awdurdod Lleol, sy'n cynnwys gwariant gan ysgolion ac sy'n gorfod cyflwyno golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod Lleol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

3.5.2 Er mwyn cyflawni hyn, mae polisïau cyfrifyddu priodol wedi cael eu dethol ac fe gânt eu gweithredu'n gyson, gan sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu cywir yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiweddar. Rhoddir isod grynodeb o'r prif bolisïau:

- defnyddio sail groniadau (ymrwymiadau);
- dylid gwneud cyfatebiaeth rhwng pob incwm a gwariant;
- dylid mabwysiadu ymagweddiad darbodus at amcangyfrif incwm a gwariant yn y dyfodol.

3.5.3 Mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â pholisïau cyfrifyddu'r Awdurdodau Lleol gan gynnwys Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

***Gweithdrefnau cyfrifyddu ar gyfer diwedd y flwyddyn***

3.5.4 Bydd y Gwasanaethau Ariannol yn cyflwyno canllawiau penodol i ysgolion ynglŷn â'r amserlen a'r gweithdrefnau i'w dilyn gan bob ysgol ym mis Chwefror bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â'r amserlen gau.

## 3.6 Dileu Dyledion

3.6.1 Nid oes gan y Corff Llywodraethol yr awdurdod i ddileu unrhyw ddyledion sy'n parhau heb eu talu ac sy'n ymddangos yn amhosib eu hadennill. Mae'n rhaid cael awdurdod gan Gabinet Cyngor Sir Ceredigion i ddileu unrhyw arian dyledus, ac eithrio i'r graddau y dirprwyir i'r Prif Swyddog Cyllid. Mae'n rhaid i bob ysgol wneud unrhyw gais am ddileu dyledion i'r Prif Swyddog Cyllid.

## 3.7 Sail Cyfrifyddu

3.7.1 Dylai ysgolion adrodd i'r Awdurdod Lleol ar sail groniadau (ymrwymiadau).

3.7.2 Bydd gan bob ysgol fynediad at naill ai'r cyfriflyfr neu daenlenni yn dangos sefyllfa ariannol yr ysgol wedi'u paratoi gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

3.7.3 Ceir paratoi adroddiadau rheolaeth fewnol ysgolion naill ai ar sail groniadau neu arian. Eto, mae angen i lywodraethwyr eu sicrhau eu hunain eu bod yn ymwybodol o wir sefyllfa eu hysgol os sail arian a ddewisir.

## 3.8 Cyflwyno Cynlluniau Cyllideb

3.8.1 Mae gofyn i bob ysgol a gynhelir gyflwyno cynllun cyllideb (cyllideb weithiol ddrafft) i'r Awdurdod Lleol bob blwyddyn. Mae'n rhaid i ysgolion gymryd i ystyriaeth lawn ddiffygion/wargedion amcan ar y 31 Mawrth blaenorol yn eu cynllun cyllideb.

3.8.2 Mae'n rhaid i gynllun cyllideb ffurfiol cyntaf pob blwyddyn ariannol gael ei gymeradwyo gan y corff llywodraethol llawn. Yn achos pob ysgol, ni ddylai hyn fod yn hwyrach na 1af Ebrill bob blwyddyn. Eto, o dan amgylchiadau eithriadol, gyda chytundeb yr Awdurdod Lleol, gellir gohirio ei gyflwyno tan 1af Mehefin. Gall peidio â gwneud hyn arwain at ymyriad gan yr Awdurdod Lleol.

3.8.3 Mae'n rhaid i gynlluniau cyllideb ddangos yr hyn a fwriada'r ysgol o ran gwariant yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r cynllun cyllideb. Mae angen monitro ac adolygu cynlluniau cyllideb am gywirdeb mewn da bryd. Cyfrifoldeb yr ysgol yw ymgymryd â'r swyddogaeth monitro ac adolygu hon. Mae hyn yn cynnwys yr ysgolion hynny sydd wedi mynd i mewn i CLG gyda'r Awdurdod Lleol ar gyfer paratoi cyllideb, gan nad yw'r CLG yn cynnwys darpariaeth ar gyfer monitro neu adolygu'r gyllideb.

3.8.4 Dylai cynlluniau cyllideb hefyd nodi unrhyw drefniadau i symud cyllid rhwng penawdau cyllideb sydd wedi'u cymeradwyo gan y corff llywodraethol a chynigion o ran defnydd arfaethedig o fantolenni gwarged. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi canllawiau manwl i ysgolion ar y fformat y dylid cyflwyno cynlluniau cyllideb ynddo.

3.8.5 Yn ogystal, mae gofyn i'r Corff Llywodraethol roi gwybod i'r ALI am unrhyw ddiwygiadau i'w ddosraniad cyllideb neu'r alldro a ragwelir iddo lle bo unrhyw ddiwygiad o'r fath i wariant wedi'i gyllidebu yn fwy na £4,000 mewn perthynas ag Ysgolion Cynradd neu £10,000 mewn perthynas ag Ysgolion Uwchradd.

3.8.6 Mae'n ddymunol bod ysgolion yn gwneud yn glir y modd y mae cynllunio i ddatblygu'r ysgol ac, yn enwedig, gwella'r ysgol yn cael ei gefnogi gan y cynllun cyllideb. Mewn rhai achosion, ac yn benodol lle eir y tu hwnt i'r gwariant arfaethedig, bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i gynlluniau diwygiedig gael eu cyflwyno (gweler 3.11)

3.8.7 Bydd gan bob ysgol fynediad at naill ai:-

- cyfriflyfr yr Awdurdod Lleol a ddengys yr eitemau diweddaraf o incwm a gwariant sydd wedi'i nodi yn erbyn cyllideb ddirprwyedig yr ysgol; neu
- daenlenni a baratowyd gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn rhestru trafodion cyllidol yr ysgol.

## 3.9 Cynllunio Gwelliant

3.9.1 Mae Adran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i "wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau". Er nad yw'r cyfrifoldeb statudol hwn yn ymestyn at gyrff llywodraethol, fe'i hystyrir yn arfer dda i gyrff o'r fath osod blaenoriaethau eglur, nodi gweithrediadau i'w cyflawni a sefydlu fframwaith priodol o fesurau perfformiad i'w defnyddio wrth fonitro cynnydd. Bydd angen i gynlluniau a strategaethau o'r fath gael eu hadnewyddu'n rheolaidd, efallai'n flynyddol.

## 3.10 Gwerth Gorau

3.10.1 O ystyried y gyfran uchel iawn o wariant awdurdodau lleol sy'n llifo drwy gyllidebau dirprwyedig, mae'r Llywodraeth yn ei gweld yn ddymunol bod ysgolion yn dangos eu bod yn dilyn egwyddorion gwerth gorau fel y manylir arnynt yn Atodiad 3.

3.10.2 Fel rhan o gyflwyno'r cynllun cyllideb blynyddol, bydd Corff Llywodraethol pob ysgol yn cyflwyno datganiad yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod gwariant yn adlewyrchu egwyddorion y drefn gwerth gorau.

## 3.11 Trosglwyddo Cyllid rhwng Penawdau

3.11.1 Caiff cyrff llywodraethol / penaethiaid drosglwyddo cyllid rhwng penawdau cyllideb o fewn cyllidebau dirprwyedig.

3.11.2 Lle bo'r corff llywodraethol yn derbyn grantiau penodol, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau grant sy'n berthnasol i bob grant. Dylai pob trosglwyddiad o'r fath rhwng penawdau yn achos grant gael ei gymeradwyo gan y corff llywodraethol neu bwyllgor neu'r pennaeth gyda phwerau dirprwyedig cyn ymrwymo i unrhyw wariant. Lle bo trosglwyddiad rhwng penawdau'n digwydd gyda'r tebygolrwydd y bydd cyfanswm y gwariant arfaethedig yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb a gynlluniwyd, dylid hysbysu'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn syth (ac yntau, yn ei dro, yn rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Cyllid).

## 3.12 Archwilio - Cyffredinol

3.12.1 Bydd y Corff Llywodraethol yn atebol i'r Awdurdod Lleol am ddiogelu, cadw a rhoi ar waith yr holl adnoddau y mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt amdanynt. Y mae'r Corff Llywodraethol hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r ysgol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll a phethau eraill sy'n mynd yn erbyn rheolau.

3.12.2 Mae cwmpas gwaith Archwilio Mewnol y Cyngor yn ymestyn at holl amgylchedd rheolaeth y Cyngor, ac yn cynnwys ysgolion. Caiff yr Archwilydd Mewnol adolygu a chloriannu polisïau, cynlluniau, gweithdrefnau a chofnodion ariannol unrhyw ysgol ac mae'n rhaid iddo/i gael mynediad heb gyfyngiadau at gofnodion, asedau a phersonél yr ysgol fel yr ystyrio'n berthnasol i gyflawni ei d(d)yletswyddau fel a amlinellir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Adran 151) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005 (Adran 6).

3.12.3 Mae gan y Prif Archwilydd Mewnol fynediad uniongyrchol at y Corff Llywodraethol, y Pennaeth, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol a phwyllgor neu banel priodol, a rhyddid i adrodd yn ei (h)enw ei hun iddynt oll heb dderbyn wyneb.

3.12.4 Mae gan staff yr Adain Archwilio Mewnol yr awdurdod i wneud fel a ganlyn:

- Mynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw safle neu dir o eiddo'r Cyngor, a hynny i gynnwys ysgolion, yn amodol ar reoliadau amddiffyn plant
- Cael mynediad at bob cofnod, dogfen a gohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion gan yr ysgol o fath ariannol ac fel arall
- Mynnu a derbyn pa esboniadau bynnag sydd eu hangen mewn perthynas ag unrhyw fater a archwilir
- Mynnu bod unrhyw un a gyflogir gan yr ysgol yn cyflwyno arian, storfeydd neu unrhyw beth arall o eiddo'r Cyngor sydd o dan ei r(h)eolaeth, a
- Chael mynediad at gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, megis contractwyr neu asiantaethau partneriaeth, yn ôl y telerau contract perthnasol.

3.12.5 Mae cyfrifoldebau archwilwyr allanol yn deillio o statud, yn bennaf Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 a Deddf Llywodraeth Leol 1999, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu 2005.

3.12.6 Disgwylir i bob corff llywodraethol a phennaeth gwrdd ag unrhyw gais am wybodaeth neu fynediad at gofnodion gan archwilwyr mewnol ac allanol fel ei gilydd.

## 3.13 Archwiliadau Allanol ar Wahân

3.13.1 Caiff cyrff llywodraethol gyflogi eu harchwilwyr allanol eu hunain i archwilio eu cyfrifon os dymunant wneud felly. Ni wnaiff yr Awdurdod Lleol, fodd bynnag, roi dim cyllid ychwanegol ar gael i'r perwyl hwn. Ni fydd y fath drefniadau'n atal bod y Prif Swyddog Cyllid yn gwneud unrhyw wiriadau archwilio mewnol neu allanol a wêl yn angenrheidiol.

## 3.14 Cronfeydd

3.14.1 Mae'n rhaid i bob corff llywodraethol sicrhau bod unrhyw gronfeydd gwirfoddol neu breifat, neu gronfeydd yn ymwneud â chyrff masnachu, a ymddiriedir iddo, yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol, a bod pob cronfa'n cael ei chymeradwyo gyntaf gan y corff llywodraethol a bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdani wedyn.

3.14.2 Dylai adroddiad gael ei gyflwyno bob blwyddyn i'r Corff Llywodraethol, yn nodi'r defnydd a wnaed o'r fath gronfeydd a'r mantolenni a ddelir. Dylai'r corff llywod-raethol sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio er lles y disgyblion neu'r ysgol.

3.14.3 Dylai'r ysgol gynhyrchu nodiadau system a gweithdrefniadol ar gyfer rheoli a gweithredu'r gronfa breifat, fel a amlinellir yn y Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig. Dylai copi o'r rhain gael ei roi i bob aelod o'r staff y rhoddir cyfrifoldeb iddo/i am reoli cronfa breifat. Ni ddylid AR UNRHYW GYFRIF dalu incwm a ddaw gan y Cyngor i gyfrif banc y gronfa breifat yn y lle cyntaf a'i drosglwyddo wedyn i gyfrif y Cyngor – ni ddylai cronfeydd preifat ysgol a chyllid y Cyngor gael eu cymysgu.

3.14.4 Dylai pob cronfa newydd gael cyfrif banc neilltuol.

***Cronfeydd Preifat, Gwirfoddol ac Answyddogol***

3.14.5 Lle bo unrhyw gronfa breifat, wirfoddol neu answyddogol yn cael ei gweinyddu gan yr ysgol, mae'n rhaid cydnabod bod cyfrifoldeb gan yr Awdurdod Lleol i warchod buddiannau'r rhoddwyr a'r buddiolwyr. Dylai datganiadau blynyddol gael eu paratoi yn unol â'r rheoliadau ariannol ar gyfer ysgolion dirprwyedig a dylai Tystysgrifau Archwiliad gael eu darparu'n flynyddol i'r Awdurdod Lleol a'r Corff Llywodraethol perthnasol.

***Cronfeydd Ymddiriedolaeth***

3.14.6 Lle bo Cronfeydd Ymddiriedolaeth wedi cael eu sefydlu er budd ysgolion unigol, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn llawn ac yn cydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau a phob cronfa ymddiriedolaeth unigol.

## 3.15 Cofrestr Buddiannau Busnes

3.15.1 Mae'n rhaid i bob llywodraethwr, pennaeth a phob aelod o staff ysgol ddatgan pob buddiant busnes sydd ganddynt hwy eu hunain neu eu teulu agosaf mewn cofrestr a sefydlir gan y llywodraethwyr i'r perwyl hwnnw. Cyfrifoldeb y corff llywodraethol fydd sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chadw'n ddiweddar, drwy fynd ati'n weithredol i'w hadolygu a gwneud yr ymholiadau angenrheidiol i bob llywodraethwr, pennaeth ac aelod o'r staff o leiaf unwaith y flwyddyn.

3.15.2 Ni chaiff aelodau'r Corff Llywodraethol gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad y gall fod ganddo/i fuddiant ariannol cysylltiedig ag ef. Lle bo awgrym bod rhywun yn dylanwadu'n amhriodol gall yr ALl ystyried tynnu'r dirprwyad yn ôl neu osod sancsiynau priodol eraill.

3.15.3 Byddai gosod contractau gydag e.e. deulu neu ffrindiau gyda chymhellion amhriodol yn debygol o fod yn enghraifft o weithredu'n annidwyll, a hynny'n peri bod llywodraethwyr yn colli'r amddiffyniad rhag atebolrwydd personol a roddir gan y Ddeddf.

3.15.4 Dylai'r Gofrestr Buddiannau Busnes briodol fod ar gael i'w harddangos yn gyhoeddus ym mhob ysgol.

## 3.16 Gofynion Prynu, Tendro a Chontractio

3.16.1 Mae'n rhaid i ysgolion gadw at y fersiwn diweddaraf o Reolau Gweithdrefnau Contract yr Awdurdod Lleol (roedd y fersiwn diweddaraf ar adeg ysgrifennu hyn wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor 19/02/2009). Mae'n rhaid i ysgolion hefyd gadw at y Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig mewn materion prynu, tendro a chontractio. Dylai ysgolion hefyd asesu ymlaen llaw, lle bo'n berthnasol, gymhwysedd iechyd a diogelwch contractwyr gan gymryd i ystyriaeth bolisïau a gweithdrefnau'r AALl.

3.16.2 Er bod gan gyrff llywodraethol yr awdurdod o dan a.10 SAFfY i ymgymryd â chontractau, fe'i gwnânt fynychaf ar ran yr Awdurdod Lleol fel cynhaliwr yr ysgol a pherchennog y cyllid yn y gyfran gyllideb. Serch hynny, mae hawl i wneud contractau eraill ar ran y corff llywodraethol yn unig lle bo gan y corff llywodraethol ddyletswyddau statudol eglur – er enghraifft, contractau a wneir i gyflogi staff gan ysgolion a gynorthwyir.

3.16.3 Mae ysgolion sy'n gwneud defnydd o gyfleusterau y tu allan i'r trefniadau canolog o fewn y rheoliadau ariannol ar gyfer ysgolion dirprwyedig yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian ac mae'n rhaid iddynt fod mewn lle i brofi telerau eu pryniadau a chyfiawnhau'r hyn a wnaethant.

3.16.4 Mae'n rhaid i bob contract fod yn destun cystadleuaeth, fel a ganlyn (gofynion lleiaf).

| **Cyfanswm Gwerth** | **Trefn Ddyfarnu** | **Tîm Dyfarnu (o leiaf)** |
|---|---|---|
| £5,000 a hyd at £25,000 | Ceisio o leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig a chael o leiaf un. | Aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Ysgol. |
| £25,000 a hyd at £100,000 | Ceisio a chael o leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig. | Aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Ysgol a'r Pennaeth. |
| £100,000 a mwy | Anfon allan o leiaf bum gwahoddiad i dendro | Aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Ysgol a Chyfarwyddwr gyda Chyngor Sir Ceredigion. |

3.16.5 Mae gofyn i ysgolion hefyd asesu ymlaen llaw, lle bo'n berthnasol, gymhwysedd iechyd a diogelwch contractwyr gan gymryd i ystyriaeth bolisïau a gweithdrefnau'r AALl.

3.16.6 Mae mynediad i brynu nwyddau neu wasanaethau drwy Gontractwyr Canolog wedi cael ei drefnu gyda rhychwant eang o gyflenwyr. Mae contractau o'r fath yn cwmpasu rhychwant enag o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen yn aml ar ysgolion gan gynnwys olew a bwyd. Noder mai dim ond cyflenwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor y dylid eu defnyddio i gyflenwi bwyd oherwydd y risg uchel a all fod yn gysylltiedig â'r nwyddau hyn.

3.16.7 Nid oes gofyn mai o restr wedi'i chymeradwyo yn unig y bydd ysgolion yn dewis cyflenwyr – er y byddai'r Awdurdod Lleol yn argymell yn gryf ddefnyddio unrhyw restr wedi'i chymeradwyo i amddifyn yr ysgol a hefyd i arbed amser gwerthfawr y staff wrth chwilio am gyflenwyr.

3.16.8 Mae gan y Cyngor Swyddog Cyrchu a allai gynorthwyo ysgolion yn eu gweithgareddau cyrchu ac y gellir cysylltu ag ef ar 01970 633050. Ni chodir dim tâl am ddefnyddio contractau corfforaethol a disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyrchu pan fo'n briodol i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian.

3.16.9 Y ffordd hawsaf i ysgolion gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio yn ogystal â sicrhau gwerth am arian o drefniadau contractio yw defnyddio'r system gyrchu electronig – 'Pwrcasu i'r Awdurdod'. Mae'r system hon wedi'i hintegreiddio â'r holl becynnau meddalwedd ariannol eraill a redir gan y Cyngor.

## 3.17 Cymhwyso Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) i Ysgolion

3.17.1 Nid oes gorfodaeth ar ysgolion i ymgymryd â CLGau gyda'r Awdurdod a chânt ddewis peidio â mynd i mewn iddynt. Mae ysgolion sy'n mynd i mewn i CLGau gyda'r Awdurdod Lleol wedi'u rhwymo gan y telerau a gynhwysir ym mhob CLG, a all adael lle i amrywio'r telerau a'r amodau.

3.17.2 Bydd ysgolion sy'n dewis ymgymryd â Chytundeb yr Awdurdod Lleol wedi'u rhwymo gan ei delerau a'i amodau. Dylai Cyrff Llywodraethol roi deuddeg mis o rybudd

ysgrifenedig (neu'r rhybudd cyfatebol sy'n ofynnol yn y cytundeb) i'r Awdurdod Lleol o'r bwriad i dynnu allan o drefniadau'r Awdurdod Lleol.

3.17.3 Bydd gofyn i ysgolion sy'n tynnu allan o CLGau gyda'r Awdurdod yn groes i'r telerau a'r amodau sydd wedi'u cytuno gwrdd ag unrhyw gostau neu rwymedigaethau ychwanegol a gwyd o ganlyniad i'w gweithrediad. Gall ysgolion fod wedi'u rhwymo hefyd i gontractau penodol sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau, p'un a yw'r ysgolion yn cytuno ai peidio.

3.17.4 Dylai ysgolion nodi, er bod gan gyrff llywodraethol yr awdurdod o dan baragraff 3 a.10 o Ddeddf SAFfY i ymgymryd â CLGau neu gontractau, eu bod, fynychaf, yn gwneud felly ar ran yr Awdurdod Addysg, fel cynhaliwr yr ysgol a pherchennog y cyllid yn y gyfran gyllideb. Lle bo gan y corff llywodraethol ddyletswyddau statudol eglur, e.e. contractau a wneir i gyflogi staff gan ysgolion a gynorthwyir, ceir gwneud y cytundeb ar ran y corff llywodraethol yn unig.

## 3.18 Cyllid Canolog a Chlustnodi

3.18.1 Yn ogystal â'r cyllid a ddirprwyir i ysgolion drwy'r CYU, caiff yr Awdurdod Lleol roi dosraniadau ychwanegol ar gael i ysgolion at ddibenion penodol (e.e. grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru). Rhoddir cyllid o'r fath ar gael ar amodau a fydd yn pennu'r pwrpas y mae'r cyllid i'w ddefnyddio iddo. Dylai cyllid o'r fath, os y'i telir yn uniongyrchol i'r ysgol gan gorff allanol, gael ei dalu i mewn i gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Ni ddylid AR UNRHYW GYFRIF dalu unrhyw gyllid a ddarperir i'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol, neu gyrff eraill, i mewn i unrhyw gronfeydd preifat a ddelir gan yr ysgol – hyd yn oed os bwriedir ei drosglwyddo wedyn.

3.18.2 Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddangos mai dim ond i'r diben(ion) y rhoddwyd y cyllid iddo/iddynt y gwariwyd arian a ddosrannwyd i ddiben(ion) penodol a'u bod heb gael eu trosglwyddo i'r gyfran gyllideb. Felly, bydd angen cofnodi pob gwariant o'r fath ar system rheolaeth ariannol yr Awdurdod Lleol a rhoi digon o wybodaeth ategol i ddangos cydymffurfiaeth â'r amod hwn.

3.18.3 Caiff yr Awdurdod Lleol fynnu ei bod yn rhaid rhoi cyllid wedi'i glustnodi yn ôl i'r Awdurdod Lleol oni chaiff ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol, neu o fewn y cyfnod a ganiateir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid os bydd yn wahanol.

3.18.4 Ni wnaiff yr Awdurdod Lleol ddim didyniad, mewn perthynas â chostau llog i'r Awdurdod Lleol, o daliadau grant penodol dirpwyedig neu arbennig i ysgolion.

3.18.5 Serch hynny, caiff yr Awdurdod Lleol ddidynnu tâl gweinyddu o'r cyllid yn ei ffynhonnell, os yw hynny yn unol â thelerau ac amodau'r gronfa.

## 3.19 Gwariant at Ddibenion yr Ysgol

3.19.1 Mae a.50 o Ddeddf SAFfY yn caniatáu i gyrff llywodraethol wario cyfrannau cyllideb at ddibenion yr ysgol. Gall hyn gynnwys darparu rhaglenni addysg heb fod yn yr ysgol neu ddarparu rhaglenni addysg o fewn y 'Teulu o Ysgolion' lle gall

llywodraethwyr ddangos bod y rhain yn uniongyrchol berthnasol i godi safonau. Un enghraifft o hyn fyddai gweithgareddau Ysgolion Bro.

## 3.20 Gwariant Cyfalaf o Gyfrannau Cyllideb

3.20.1 Caiff cyrff llywodraethol ddefnyddio eu cyfrannau cyllideb i gwrdd â chost gwariant cyfalaf ar safle'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys gwariant gan gorff llywodraethol ysgol a gynorthwyir ar waith sy'n gyfrifoldeb iddynt hwy o dan baragraff 3 Atodlen 3 o Ddeddf SAFfY. Eto, os bydd y gwariant cyfalaf disgwyliedig gan gorff llywodraethol ysgol yn fwy na £15,000 mewn unrhyw un flwyddyn, mae gofyn i'r corff llywodraethol hysbysu'r Awdurdod Lleol a chymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol o ran rhinweddau'r cynigion. Mae'n rhaid cael astudiaeth ddichonoldeb ynghyd ag unrhyw brosiect o natur gyfalaf sy'n fwy na **£15,000** fel a fynnir gan Weithgor Rhaglenni Cyfalaf yr Awdurdod Lleol.

3.20.2 Mae'n rhaid i unrhyw waith arfaethedig ar asedau sy'n eiddo i'r ALl gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

3.20.3 Er y caiff pob cynnig am wariant cyfalaf ei ystyried ar sail ei rinweddau unigol, dylai cyrff llywodraethol fod yn ymwybodol na wnaiff yr Awdurdod Lleol fel arfer gymeradwyo gwaith a allai arwain at greu lleoedd dros ben, neu sy'n groes i Gynllun Trefniadaeth yr Ysgol. Yn yr un modd, ni wnaiff yr Awdurdod Lleol fel arfer gymeradwyo gwaith a wnaiff esgor ar gostau refeniw parhaus ychwanegol, heblaw y gall y corff llywodraethol ddangos y bydd mewn lle i gwrdd â chostau ychwanegol o'r fath o'r gyfran gyllideb. Gellir gwrthod caniatâd hefyd am resymau iechyd a diogelwch neu effeithlonrwydd.

3.20.4 Mae'n rhaid i bob gwariant cyfalaf a gyllidir o Gyllideb Ddirprwyedig ysgol gael ei wahaniaethu oddi wrth Wariant Refeniw er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth ac mae'n rhaid felly ei gofnodi fel "Cyfalaf" yng nghyfrifon yr AALl. Lle bo ysgol yn dymuno defnyddio rhan o'i chyllideb ddirprwyedig at ddibenion cyfalaf, dylai gwariant o'r fath gael ei wahaniaethu oddi wrth Refeniw wrth hysbysu'r ALl o'i dosraniadau cyllideb ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

## 3.21 Cyllid Grant

3.21.1 Dylai ysgolion sy'n derbyn cyllid grant, er enghraifft o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu Gyllid Loteri, fod yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau ariannol o dan delerau unrhyw grant. Yn benodol, mae gan gyrff llywodraethol y cyfrifoldeb am gyflawni prosiectau yn unol â'r cais am grant a'i amodau ac am gydymffurfio ag unrhyw ofynion o ran archwiliadau a chadw dogfennaeth. Dylid ceisio cyngor gan Reolwr Gwasanaethau Busnes ac Ewropeaidd yr Awdurdod Lleol.

# 4.0 Rhandaliadau'r Gyfran Gyllideb; Trefniadau Bancio

## 4.1 Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Adnoddau Ariannol

4.1.1 Mae'r Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Adnoddau Ariannol, sy'n ymdrin â rheoli llifau arian awdurdodau lleol, eu benthyciadau a'u buddsoddiadau, rheoli risgiau cysylltiedig, a cheisio'r perfformiad neu'r enillion gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.

## 4.2 Mynychder y Gyfran Gyllideb

4.2.1 I ysgolion sy'n defnyddio cyfrif banc y Cyngor rhoddir eu cyfran gyllideb ar gael o ddechrau'r flwyddyn ariannol.

## 4.3 Cyllideb i'w Thalu i Ysgolion sy'n Rhedeg eu Cyfrifon Banc eu Hunain

4.3.1 Bydd ysgolion sy'n rhedeg eu system gyflogres eu hunain yn derbyn eu cyfrannau cyllideb yn fisol. Bydd y cyfrannau misol yn symiau cyfartal ac fe'u telir ar yr 20fed o bob mis. Caiff swm cyfartal â'r amcangyfrif o'r elfen nad yw'n gyflogau bob mis ei dalu ar y 1af Ebrill a'i ddidynnu o'r rhandaliad olaf.

4.3.2 Bydd ysgolion sy'n defnyddio system gyflogres yr ALl yn derbyn eu cyfran gyllideb amcangyfrifedig am yr hyn nad yw'n gyflogau ar raddfa o 40% ar gyfer tymhorau'r Haf a'r Hydref ac 20% ar gyfer tymor y Gwanwyn. Caiff hyn ei addasu yn ystod y flwyddyn ariannol pan fydd y costau cyflogres gwirioneddol yn hysbys.

4.3.3 Mae'n rhaid i ysgolion sy'n rhedeg eu cyfrifon banc eu hunain ac arnynt angen taliadau cyfran gyllideb ar sail fwy mynych wneud cais i'r ALl cyn dechrau'r flwyddyn ariannol dan sylw.

4.3.4 Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol ychwanegu llogau at randaliadau cyfran gyllideb a delir yn hwyr, lle mai camgymeriad gan yr Awdurdod yw'r rheswm dros y fath daliad hwyr. Y gyfradd log a ddefnyddir fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr sydd mewn grym adeg y taliad hwyr. Y gyfradd log a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau adfachu (oni bydd dim mecanwaith adfachu yn ei le), fydd cyfradd sylfaenol gyfartalog Banc Lloegr am y flwyddyn ariannol dan sylw.

4.3.5 Codir swm priodol ar bob ysgol sy'n dewis rheoli ei chyfrif banc ei hun i adlewyrchu'r llogau a gyll yr Awdurdod Lleol yn seiliedig ar y gwahaniaethau rhwng y proffil gwariant gwirioneddol a'r blaensymiau arian a delir i ysgolion. Caiff blaensymiau Medi a Ionawr pob ysgol eu lleihau o lefel y llogau a gollir gan yr Awdurdod Lleol.

## 4.4 Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu ar gyfer y Gyllideb Ddirprwyedig

4.4.1 Caiff ysgolion ddewis dal cyfrifon banc allanol o restr o sefydliadau ariannol dilys a gymeradwyir ac a ddelir gan y Prif Swyddog Cyllid. Unrhyw ysgol sy'n cau cyfrif a ddefnyddir i dderbyn ei chyfran gyllideb ac yn agor un arall, mae'n rhaid iddi hysbysyu'r Prif Swyddog Cyllid a dewis y banc neu'r gymdeithas adeiladau newydd o'r rhestr o rai wedi'u cymeradwyo, hyd yn oed os nad oedd y cyfrif sy'n cael ei gau gyda sefydliad ar y rhestr honno.

4.4.2 Caiff ysgolion redeg cyfrifon cyfredol (llyfr sieciau) a chyfrifon llog fel ei gilydd gyda'r Sefydliadau cymeradwy hyn. Dim ond un cyfrif cyfredol cymeradwy sydd i'w ddefnyddio. Eto, mae hawl i ddal cyfrifon llog gyda mwy nag un o'r sefydliadau ariannol ar y rhestr, a chaiff yr ysgol gadw unrhyw logau a enillir.

4.4.3 Caiff pob cyfrif a agorir fod yn enw'r ysgol a Chyngor Sir Ceredigion ar y cyd, a bydd hynny'n hwyluso trefniadau consortia h.y.: 'Enw'r Ysgol – Cyngor Sir Ceredigion'.

4.4.4 (Ni wnaiff yr Awdurdod Lleol warantu unrhyw gyfrif a ddelir yn enw ysgol a'r Awdurdod Lleol ar y cyd).

4.4.5 Fodd bynnag, os oes gan ysgol gyfrif yn enw'r ysgol yn unig, bydd yr Awdurdod Lleol yn mynnu bod mandad y cyfrif yn cydnabod:-

- mai'r Awdurdod Lleol yw perchennog yr arian yn y cyfrif;
- fod gan yr Awdurdod Lleol hawl i gael datganiadau; ac
- y caiff yr Awdurdod Lleol gymryd rheolaeth ar y cyfrif os caiff hawl yr ysgol i gyllideb ddirprwyedig ei hatal gan yr Awdurdod Lleol.

4.4.6 Caiff yr Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i drafod telerau gyda rhai banciau lle bydd y cyfrifon yn enw Cyngor Sir Ceredigion ond yn benodol i bob ysgol, a chynnig trefniadau o'r fath i ysgolion. Bydd arian cyfran gyllideb a delir gan yr Awdurdod Lleol ac a ddelir yng nghyfrifon ysgolion yn parhau'n eiddo i'r Awdurdod Lleol hyd nes y cânt eu gwario (a.49.5 Deddf SAFfY).

4.4.7 Bydd yr Awdurdod Lleol yn mynnu bod o leiaf 4 llofnod ar bob cyfrif banc sy'n perthyn i Ysgol. Gweithwyr cyflogedig gyda'r Awdurdod Lleol fydd dau o'r llofnodion hynny, a gweithwyr cyflogedig gyda'r ysgol fydd o leiaf dau ohonynt. Dylai fod llofnod dau o bobl o leiaf ar bob siec a dynnir ar y cyfrif. Ni chaiff llywodraethwyr nad ydynt yn aelodau o'r staff fod yn llofnodwyr.

4.4.8 Corff Llywodraethol pob ysgol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eu cyfrifon banc yn cael eu rheoli'n iawn ac yn effeithlon yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Ysgolion. Gellir gofyn am gyngor gan y Prif Swyddog Cyllid.

4.4.9 Cyrff Llywodraethol unigol fydd yn gyfrifol am bennu a gweinyddu'r broses dendro mewn perthynas â banciau. Dylid aildendro o bryd i'w gilydd gyda thendrau wedi'u derbyn gan o leiaf tri o'r Sefydliadau Ariannol cymeradwy. Gellir gofyn am gyngor gan y Prif Swyddog Cyllid.

4.4.10 Hysbysir y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Cyllid yn ysgrifenedig o bob cyfrif banc a chymdeihas adeiladu a agorir o dan y cynllun hwn.

4.4.11 Ni fydd ysgolion fel arfer yn gallu cofrestru'n annibynnol gyda Chyllid a Thollau EM. Felly, mae'n rhaid i bob papur ysgrifennu ariannol priodol a ddefnyddir gan yr ysgol fod â chyfeiriad at Gyngor Sir Ceredigion a'i rifau cofrestru, gweler hefyd adran 6.2.

4.4.12 Bydd yr ysgol yn gwneud pob trefniant angenrheidiol ar gyfer cadw cofnodion ariannol ac yn ceisio cyngor y Prif Swyddog Cyllid cyn cael gwared ar unrhyw gofnodion ariannol. Dylid cynnal cofnod o'r holl gadw ac archifo cofnodion, gan fanylu ar beth a gedwir ac ymhle, a chan nodi'n benodol unrhyw gyllid grant a ddefnyddir i ariannu gwariant.

4.4.13 Ni chaiff ysgolion sy'n bwriadu agor cyfrifon banc newydd wneud hynny ond gydag effaith o ddechrau pob blwyddyn ariannol ar ôl i rybudd ysgrifenedig o fwriad gael ei dderbyn, a hwnnw wedi'i lofnodi gan y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr ac yn rhoi o leiaf pedwar mis o rybudd. Pan fo ysgol yn agor cyfrif banc allanol, fe wnaiff yr Awdurdod Lleol, os dymuna'r ysgol, drosglwyddo i'r cyfrif yn syth swm wedi'i gytuno gan yr ysgol a'r Awdurdod ill dau fel amcangyfrif o'r fantolen arian a ddelir gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â chyfran gyllideb yr ysgol, ar y sail y bydd cywiriad wedyn pan gaeir cyfrifon y flwyddyn ysgol berthnasol.

4.4.14 Ni chaiff ysgolion â mantolenni diffyg agor cyfrif banc newydd am ddeuddeng mis ar ôl clirio diffygion o'r fath.

4.4.15 Dylai cyrff llywodraethol sicrhau nad oes gan gyfrifon cyfredol ddim cyfleusterau gorddrafft.

4.4.16 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r risg gyfnewid y gallent fod yn agored iddi drwy brynu nwyddau a gwasanaethau o fewn y Gymuned Ewropeaidd a gofyn am daliad yn arian bath yr 'Ewro', yn ogystal â rhai eraill megis y Ddoler.

4.4.17 Mae'n rhaid i ysgolion sy'n dewis cael eu cyfrif(on) banc eu hunain wneud darpariaethau gweinyddol digonol i sicrhau bod trefniadau diogelwch priodol yn eu lle a bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu a sylw'n cael ei roi i fantoli'r cysoniad banc.

4.4.18 I ysgolion sy'n dewis dal eu cyfrifon banc eu hunain, mae'n rhaid i'r ysgol hysbysu'r Awdurdod Lleol i ba gyfrif banc y mae am i'w chyfran gyllideb gael ei thalu.

4.4.19 Mae'n rhaid rhoi mynediad at bob dogfennaeth yn ymwneud â chyfrifon banc yr ysgol pan ofynnir am hynny gan Adran Archwilio Mewnol y Cyngor.

## 4.5 Trefnau sy'n rhaid eu dilyn gan ysgolion sy'n rhedeg eu cyfrifon banc eu hunain

4.5.1 Manylir ar y trefnau a'r mesurau rheolaeth sy'n rhaid eu dilyn gan ysgolion sy'n rhedeg eu cyfrif banc eu hunain yn y Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion Dirprwyedig. Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau hefyd:-

- Fod cysoniadau banc yn cael eu gwneud yn fisol ac yn cael eu cyflwyno i adran gyllid yr Awdurdod Lleol.
- Fod ffurflenni TAW yn cael eu cwblhau'n fisol ac yn cael eu cyflwyno i adran gyllid yr Awdurdod Lleol erbyn y 7$^{fed}$ o'r mis wedyn.
- Fod pob trafodiad yn cael ei gofnodi, ei adrodd, ei awdurdodi, a'i fonitro'n gywir yn erbyn cynlluniau a chyllidebau.

4.5.2 Bydd ysgolion â'u Cyfrifon Banc eu hunain am ddatblygu arferion priodol i gofnodi incwm gan sicrhau bod derbynneb TAW iawn yn cael ei rhoi os bydd hynny'n briodol a bod y raddfa TAW iawn yn cael ei chodi. Dylid wedyn dalu unrhyw TAW a dderbyniwyd drosodd i'r Awdurdod Lleol. Bydd angen cadw pob cofnod am chwe blynedd ariannol llawn. Mae'n rhaid i'r ysgol gyfeirio at y Canllawiau TAW i wneud yn siŵr o'r gyfradd TAW gywir. Dylai incwm o'r fath gael ei fancio'n brydlon gan ddefnyddio llyfr yr ysgol ar gyfer talu i mewn i'r banc. Dylai pob eitem gael ei chlustnodi'n unigol a'i chodio'n briodol.

## 4.6 Cyfrannau Cyllideb i Ysgolion sy'n Cau

4.6.1 Lle bo cytundeb wedi'i wneud i gau ysgol yn ystod blwyddyn ariannol, cyfrifir y gyfran gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno ar sail fisol. Lle trosglwyddir disgyblion i ysgolion newydd yn ystod y flwyddyn ariannol caiff cyfran pro rata gwerth y disgybl ynghyd â'r taliadau atodol cysylltiedig ei didynnu o gyfanswm cyfran gyllideb yr ysgol sy'n parhau.

## 4.7 Cyfrifon Imprest Arian Mân Ysgolion

4.7.1 Caiff ysgolion nad ydynt am agor eu cyfrif banc eu hunain agor cyfrif imprest bach. Pwrpas y cyfrif hwn fyddai gadael i ysgolion ddal peth arian mân yn ffisegol yn yr ysgol i brynu mân eitemau gwariant.

## 4.8 Ysgolion yn Benthyg

4.8.1 Dim ond â chaniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru y caiff cyrff llywodraethol fenthyg arian gan gyrff allanol. Mae hyn yn cynnwys gorddrafftiau tymor byr ar gyfrifon cyfredol mewn banciau.

4.8.2 Ni ddylai ysgolion fynd i mewn i offerynnau ariannol megis Prydlesi, Llogi dan Gontract, ac ati heb ganiatâd ysgrifenedig Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol.

# 5.0 Trin Gwargedion a Mantolenni Diffyg a Gwyd Mewn Perthynas â Chyfrannau Cyllideb

## 5.1 Yr Hawl i Ddwyn Ymlaen Fantolenni Gwarged

5.1.1 Gall ysgolion ddwyn ymlaen unrhyw ddiffyg mewn gwariant o gymharu â chyfran yr ysgol o'r gyllideb y flwyddyn nesaf gan ychwanegu/tynnu unrhyw fantolen a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol o un flwyddyn ariannol i'r llall. Bydd mantolen ysgol ar 1 Ebrill yn hafal i'r hyn oedd ganddi ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

5.1.2 O 1 Ebrill 2011 ymlaen, GALLAI yr Awdurdod Lleol gyfarwyddo'r corff llywodraethu ynghylch sut i wario gwarged ym mantolen yr ysgol dros gyfnod ariannu os oes gan:

a) ysgol gynradd warged o ragor na £50,000; neu

b) ysgol uwchradd neu ysgol arbennig warged o ragor na £100,000.

5.1.3 Os nad yw'r corff Llywodraethu yn cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, GALLAI yr Awdurdod Lleol ei gwneud yn ofynnol i'r corff Llywodraethu dalu'r cyfan neu ran o'r gwarged hwnnw i'r Awdurdod Lleol i'w ddefnyddio yn rhan o'u cyllideb ysgolion ar gyfer y cyfnod ariannu dan sylw.

5.1.4 Os yw ysgol yn dymuno agor cyfrif banc i dderbyn ei chyfran o'r gyllideb, byddai'r Awdurdod Lleol yn trosglwyddo swm penodol i'w gytuno rhwng Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth a'r Awdurdod Lleol yn amodol ar gysoni'n derfynol fantolen yr ysgol sydd ar gael i'w throsglwyddo.

## 5.2 Adrodd ar y Modd y Bwriedir Defnyddio Mantolenni Gwarged

5.2.1 Mae gofyn i ysgolion adrodd i'r Awdurdod Lleol ar y defnydd y mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o fantolenni gwarged mewn achosion lle mae cyfanswm y fantolen yn fwy na 5% o gyfran y gyllideb neu £10,000, pa bynnag un yw'r mwyaf. Serch hynny, dylai cyrff llywodraethu fod yn ymwybodol, fel rhan o'r broses gynllunio datblygu ysgol, ei bod yn briodol nodi'r defnydd a fwriedir ar gyfer pob mantolen gwarged, yn benodol mewn perthynas â gwella ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio trefn fonitro yn achos pob mantolen sy'n fwy na 5% a bydd canllawiau ysgrifenedig ar reoli mantolenni a diffygion ar gael i ysgolion gan yr Awdurdod Lleol.

## 5.3 Llogau ar Fantolenni Gwarged

5.3.1 Caiff ysgolion fuddsoddi mantolenni gwarged gyda'r Awdurdod Lleol. Cyfrifir y llog ar Gyfradd Sylfaenol y Banc tynnu 2% (i leiafswm o sero) ar gyfartaledd y fantolen gredyd yn ystod y flwyddyn ariannol a chaiff ei dalu'n gros ar 31ain Mawrth. Caiff hyn ei gyfrifo fel cyfartaledd y fantolen agoriadol a'r fantolen derfynol.

## 5.4 Gorfodaeth i Ddwyn Ymlaen Fantolenni Diffyg

5.4.1 Os bydd mantolen ysgol mewn diffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol, caiff y diffyg hwnnw ei ddwyn ymlaen a'i dynnu o gyfran cyllideb y flwyddyn ganlynol. Bydd mantolen ddiffyg ysgol ar 1 Ebrill yn hafal i'r fantolen ddiffyg ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd angen i ysgolion sydd â mantolenni diffyg gytuno ar ffordd ymlaen gyda'r Prif Swyddog Ariannol a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol i ad-dalu'r diffyg.

## 5.5 Mantolenni Diffyg

5.5.1 Gwaherddir ysgolion rhag cynllunio ar gyfer diffyg wrth baratoi eu cynlluniau cyllideb.

5.5.2 Diffinnir cynllun cyllideb ddiffyg fel hyn:-

- Cynllun cyllideb lle mae cyfanswm y gwariant refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol yn uwch na chyfanswm:-
    - y dyraniad cyllideb a dderbynnir oddi wrth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol,
    - plws unrhyw incwm arall y bydd yr ysgol yn ei dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol,
    - plws unrhyw falans ar y warged a ddygir ymlaen;
    - llai unrhyw falans ar y diffyg a ddygir ymlaen.

5.5.3 Gallai ysgolion gynllunio ar gyfer cyllideb ddiffyg fyrdymor gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

5.5.4 Golyga hyn y gallai ysgolion wneud cais i'r ALI am ganiatâd naill ai i:-

- ragweld rhan o ddyraniadau cyllideb y blynyddoedd sydd i ddod, i'w galluogi i wneud gwaith neu brynu eitemau mawr na ellid eu gwneud fel arall o'r cyfrannau cyllideb blynyddol; neu
- reoli newid sylweddol i'r ariannu o ganlyniad i amrywiadau yn nifer disgyblion.

5.5.5 Gellir defnyddio'r Cynllun i gytuno ar gyllidebau diffyg arfaethedig o rhwng £5,000 a £50,000, cyhyd â nad yw'n fwy na 10% o ddyraniad cyllideb blynyddol yr ysgol. Dylai'r prosiectau sydd i'w hariannu wneud cyfraniad y gellir ei ddangos i gyflawni cynllun datblygu'r ysgol.

5.5.6 Mae gofyn i ysgolion hysbysu'r Prif Swyddog Ariannol a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol ar unwaith os yw'n dod yn amlwg y bydd diffyg yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn gallu cymryd camau priodol. Bydd ysgolion hefyd yn dymuno nodi paragraff 2.4.8 a chanllawiau ategol ar y rheolau ynghylch atal dirprwyaeth.

**Rhagweld rhan o ddyraniadau cyllideb y blynyddoedd sydd i ddod:-**

5.5.7 Bydd gofyn i ysgolion ad-dalu'r diffyg o gyfrannau cyllideb y blynyddoedd sydd i ddod. Ad-daliadau a gytunwyd fydd y pwynt cyntaf ar ddyraniad cyllideb ysgol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Cyn y cymeradwyir diffyg sydd wedi'i gynllunio, bydd angen i'r ysgol allu dangos na ellir ariannu'r prosiect yn rhesymol o'u hadnoddau presennol ac y gallant wneud yr ad-daliadau dros y cyfnod a gytunwyd.

(i) Caiff y trefniad ei ariannu gan warged cyfunol mantolenni ysgol sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol ar ran ysgolion: er y gallai'r Awdurdod Lleol yn gyfreithiol roi ystyriaeth i'r mantolenni sydd gan ysgol mewn cyfrif banc allanol (gan mai eiddo'r Awdurdod Lleol yn gyfreithiol yw mantolenni ysgolion os y cawsant eu gwneud ar gael gan yr Awdurdod Lleol yn y lle cyntaf), byddai'n dymuno ceisio barn ysgolion o'r fath cyn gweithredu fel hyn.

(ii) Ni ddylai cyfanswm y cyfnod y disgwylir i ysgol ad-dalu'r diffyg (hynny yw i gyrraedd gweddill o sero o leiaf) fod yn fwy na phum mlynedd ac wedyn dim ond â chymeradwyaeth clir y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

(iii) Diben a chynllun clir wedi'u cytuno ar gyfer trefniad y diffyg, i'w adolygu fesul tymor;

(iv) Ni fydd cyfanswm mantolenni diffyg ysgolion byth yn fwy na 40% o gyfanswm mantolenni gwarged ysgolion.

(v) Gellir gwahodd ysgolion sydd â mantolenni yn eu cyfrifon banc eu hunain i gyfranogi.

(vi) Caiff telerau ac amodau manwl eu cytuno rhwng y llywodraethwyr, y pennaeth, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Cyllid.

(vii) Bydd angen i ysgolion fod yn ymwybodol y codir llog ar ddiffygion trwyddedig.

(viii) Os na chaiff ddiffyg ei ad-dalu o fewn y cyfnod hiraf y gellir ei gymryd i'w ad-dalu, gallai'r Awdurdod Lleol ystyried atal hawl corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig yn unol ag adran 51 (atodlen 15) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

(ix) Wrth geisio diffyg trwyddedig, bydd disgwyl i ysgolion ddangos bod y trefniad yn cynorthwyo i godi safonau addysgol.

**Codi Llog ar Fantolenni Diffyg**

5.5.8 Codir llog ar ysgolion sydd â mantolenni diffyg fel a ganlyn:

- Mantolen Ddiffyg – Cyfradd Llog
- £0 - £1,000 – Cyfradd y Banc
- £1,000 - £10,000 – Cyfradd y Banc ac 1%
- Mwy na £10,000 – Cyfradd y Banc a 2%
- Caiff y swm a gyfrifir ei godi ar gyfrif yr ysgol ym mis Medi bob blwyddyn.

**Dileu Diffyg**

5.5.9 Ni fydd yr Awdurdod Lleol fel arfer yn dileu unrhyw ddiffyg sydd gan ysgol.

## 5.6 Cynlluniau Benthyg

5.6.1 Gallai'r Awdurdod Lleol gynnig trefniadau benthyg o dan delerau ac amodau tebyg i'r hyn sydd ym mharagraff 5.5.7 uchod. Er mwyn ariannu trefniad ar y sail hwn, byddai angen cytuno ar faint y benthyciad a'i ddangos yng nghyllideb ysgolion lleol yr Awdurdod Lleol o dan adran 46 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

## 5.7 Mantolenni Ysgolion sy'n Cau ac Ysgolion sy'n Dod yn Lle Rhai a Fu

5.7.1 Mae rheoliadau a wnaed o dan adran 47 y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion yn darparu ar gyfer dyraniadau i ysgolion a gaiff yr effaith o roi iddynt fudd symiau ychwanegol sy'n hafal i fantolenni ysgolion perthnasol sy'n cau, neu'n llai na'r mantolenni hynny. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer diddymu cyllid ychwanegol i ysgolion newydd i gydnabod diffyg ysgol flaenorol yn effeithiol. Nid ydynt yn caniatáu i swm sy'n hafal i'r diffyg gael ei osod yn erbyn unrhyw gyllid "normal" yr ysgol newydd – hynny yw, yr elfennau cyllido y byddai'n eu derbyn beth bynnag pe na byddai'n newydd.

5.7.2 Bydd arian wrth gefn unrhyw ysgol sy'n cau neu sy'n uno ag ysgol arall fel arfer ar gael i'r ysgol newydd sydd wedi uno. Ni ellir trosglwyddo unrhyw fantolenni diffyg fel mantolen i unrhyw ysgol arall, hyd yn oed os yw'r ysgol yn olynydd i'r ysgol sy'n cau. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn "Cau Ysgolion – Polisi Gwerthu Asedau".

## 5.8 Mynd Ati Fel Undeb Credyd

5.8.1 Os nad oes diffygion trwyddedig neu gynlluniau benthyg ar gael (drwy'r Awdurdod Lleol), efallai y bydd ysgolion yn dymuno ffurfio grŵp i fynd ati fel undeb credyd er mwyn defnyddio mantolen sy'n cael ei dal yn allanol. Bydd gofyn cael cymeradwyaeth clir y Prif Swyddog Cyllid a chael y cyngor a'r ardystiad cyfreithiol ac archwilio priodol.

# 6.0 Incwm

**Noder:** Oni bai bod Menter Cyllid Preifat yn nodi i'r gwrthwyneb, gallai'r rheolau hyn fod yn berthnasol i Ysgolion Menter Cyllid Preifat hefyd.

## 6.1 Incwm Cyffredinol

6.1.1 Rhaid i'r holl incwm a dderbynnir gan yr ysgol gael ei dalu i mewn i gyfrif banc yr ALl neu i gyfrif banc yr ysgol a sefydlwyd i reoli cyllid dirprwyedig. Bydd yr ALl yn rhagnodi unrhyw eithriadau.

6.1.2 Dylid rhoi derbynneb am unrhyw incwm a dderbynnir yn yr ysgol.

6.1.3 Er mwyn cadw swm yr arian parod a gedwir yn yr ysgol mor isel â phosibl a sicrhau na chaiff sieciau eu dychwelyd gan y banc fel '*refer to drawer – insufficient funds*', dylai'r incwm a gesglir gael ei adneuo yn Swyddfa Arian y Cyngor yn rheolaidd, gan ddefnyddio llyfr Casglu ac Adneuo y Cyngor.

6.1.4 Dylai pob siec a dderbynnir yn yr ysgol mewn perthynas ag incwm y Cyngor fod yn daladwy i 'Cyngor Sir Ceredigion' ac NID i'r ysgol. Ni ddylai incwm y Cyngor AR UNRHYW GYFRIF gael ei dalu i mewn i gronfa breifat/gwirfoddol i gychwyn ac wedyn ei drosglwyddo i gyfrif y Cyngor – ni ddylid cymysgu arian yr ysgol ac arian y Cyngor. Pe disgwylir taliad drwy drosglwyddiad BACS dylid rhoi manylion cyfrif banc y Cyngor i'r talwr a'i gyfarwyddo hefyd i bostio'r hysbysiad talu i Adain Incwm y Cyngor.

## 6.2 Incwm o Osod

6.2.1 Caiff ysgolion gadw incwm o osod safle'r ysgol. Bydd angen i gyrff llywodraethu bennu eu polisïau gosod eu hunain, gan roi ystyriaeth i bolisïau'r Cyngor ar osod a ffioedd a thaliadau. Dylid adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.

6.2.2 Dylai incwm sy'n codi o osod safle'r ysgol gael ei gydnabod fel incwm yr ysgol. Nid ddylai gael ei dalu i mewn i gronfeydd gwirfoddol neu breifat sydd gan yr ysgol.

## 6.3 Incwm o Ffioedd a Thaliadau

6.3.1 Caiff ysgolion gadw incwm o ffioedd a thaliadau ac eithrio lle darparwyd neu y darperir gwasanaeth gan yr Awdurdod Lleol o gronfeydd a gedwir yn ganolog.

6.3.2 Mae gofyn i ysgolion dalu sylw priodol i bolisi'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â thaliadau a pheidio â chodi tâl. Bydd gofyn i gyrff llywodraethu bennu eu polisïau eu hunain ar daliadau a pheidio â chodi tâl, a allai fod yn fwy neu'n llai hael na pholisi'r Awdurdod Lleol cyhyd â'u bod yn ateb gofynion y gyfraith.

6.3.3 Mae ffioedd a thaliadau yn cynnwys casglu ffioedd peripatetig.

6.3.4 Dylai incwm sy'n codi o ffioedd a thaliadau gael ei gydnabod fel incwm yr ysgol. Ni ddylai gael ei dalu i mewn i gronfeydd gwirfoddol neu breifat sydd gan yr ysgol.

## 6.4 Incwm o Werthu Asedau

6.4.1 Caiff ysgolion gadw enillion yn sgil gwerthu asedau a brynwyd o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ond dim ond at ddibenion yr ysgolion y gellir cadw'r enillion. Mewn achosion lle y prynwyd yr ased gan arian nad oedd wedi'i ddirprwyo, bydd yr ALl yn penderfynu pwy ddylai gadw'r enillion.

6.4.2 Bydd enillion yn sgil gwerthu tir neu adeiladau sy'n rhan o safle'r ysgol ac sy'n berchen i'r ALl yn dod i'r AALl.

## 6.5 Trefnau Gweinyddol ar gyfer Casglu Incwm

6.5.1 Rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r trefnau a osodwyd yn y rheoliadau ariannol ar gyfer ysgolion dirprwyedig ar gyfer casglu incwm fel a amlinellir yn rheoliadau ariannol yr Awdurdod Lleol ar gyfer ysgolion dirprwyedig.

- Fod cysoniadau banc yn cael eu gwneud yn fisol ac yn cael eu cyflwyno i adran gyllid yr Awdurdod Lleol.
- Fod ffurflenni TAW yn cael eu cwblhau'n fisol ac yn cael eu cyflwyno i adran gyllid yr Awdurdod Lleol erbyn y 7$^{fed}$ o'r mis wedyn.
- Fod pob trafodiad yn cael ei gofnodi, ei adrodd, ei awdurdodi, a'i fonitro'n gywir yn erbyn cynlluniau a chyllidebau.

6.5.2 Bydd ysgolion â'u Cyfrifon Banc eu hunain am ddatblygu arferion priodol i gofnodi incwm gan sicrhau bod derbynneb TAW iawn yn cael ei rhoi os bydd hynny'n briodol a bod y raddfa TAW iawn yn cael ei chodi. Dylid wedyn dalu unrhyw TAW a dderbyniwyd drosodd i'r Awdurdod Lleol. Bydd angen cadw pob cofnod am chwe blynedd ariannol llawn. Mae'n rhaid i'r ysgol gyfeirio at y Canllawiau TAW i wneud yn siŵr o'r gyfradd TAW gywir. Dylai incwm o'r fath gael ei fancio'n brydlon gan ddefnyddio llyfr yr ysgol ar gyfer talu i mewn i'r banc. Dylai pob eitem gael ei chlustnodi'n unigol a'i chodio'n briodol.

## 6.6 Incwm o Weithgareddau i Godi Arian

6.6.1 Fel arfer caiff cronfeydd preifat / gwirfoddol ysgolion eu gweithredu a'u defnyddio er budd y disgyblion neu'r ysgol. Bydd incwm o weithgareddau codi arian a thripiau ysgol fel arfer yn disgyn i'r categori hwn.

6.6.2 Dylai'r Ysgol baratoi system a nodiadau gweithdrefnol i drin, rheoli a gweithredu'r gronfa breifat/gwirfoddol, fel a amlinellir yn y Rheoliadau Ariannol i Ysgolion Dirprwyedig, i gynnwys casglu a bancio incwm. Dylid rhoi copi o'r rhain i bob aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dros reoli cronfa breifat.

# 7.0 Codi Taliadau o Gyfrannau Cyllideb Ysgol

## 7.1 Darpariaeth Gyffredinol

7.1.1 Dim ond o dan yr amgylchiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn y bydd yr Awdurdod Lleol yn codi taliadau o gyfran yr ysgol o'r gyllideb heb ganiatâd y corff llywodraethu, ac eithrio pan y gwnaed camgymeriadau wrth gyfrifo cyfran yr ysgol o'r gyllideb o ganlyniad i ddefnyddio amcangyfrifon neu fel arall. Pe cwyd sefyllfa ac mai bwriad yr AALl yw codi tâl o gyfran yr ysgol o'r gyllideb, bydd yr ALl yn ymgynghori ag ysgolion ynghylch y bwriad i godi tâl felly ac yn hysbysu ysgolion pan fydd yr ymarferiad hyn wedi'i gwblhau.

7.1.2 Os bydd anghydfod ynghylch codi tâl o gyfran yr ysgol o'r gyllideb, caiff yr anghydfod ei wrando yn y lle cyntaf gan y Prif Swyddog Cyllid. Pe na chaiff ei benderfyniad/phenderfyniad ei dderbyn gan y corff llywodraethu, gellir apelio i banel cymrodeddu annibynnol, a sefydlir at ddiben o'r fath.

7.1.3 Pe codir tâl o gyfran yr ysgol o'r gyllideb, bydd yr Awdurdod Lleol yn codi cyflogau staff sy'n seiliedig yn yr ysgol ar wir gost.

## 7.2 Amgylchiadau lle codir taliadau

7.2.1 Codir tâl o gyfran yr ysgol o'r gyllideb gan y Prif Swyddog Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol a'r Penaethiaid Gwasanaeth angenrheidiol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau a ddisgrifir isod:

- Lle y tynnwyd costau ymddeol (yn gynnar neu fel arall) heb gytundeb ysgrifenedig yr Awdurdod Lleol ymlaen llaw i dalu costau o'r fath (dim ond y swm sy'n ychwanegol at unrhyw swm a gytunwyd gan yr Awdurdod Lleol a godir).
- Gwariant arall a dynnwyd i sicrhau ymddiswyddiadau neu i ddiswyddo cyflogeion lle nad yw'r ysgol wedi dilyn cyngor yr Awdurdod neu wedi gweithredu'n groes i brotocol cyflogaeth.
- Dyfarniadau gan lysoedd a thribiwnlysoedd cyflogaeth yn erbyn yr Awdurdod Lleol neu setliadau y tu allan i'r llys sy'n deillio o weithredu neu ddiffyg gweithredu gan y corff llywodraethu yn groes i gyngor yr Awdurdod Lleol.
- Gwariant gan yr Awdurdod Lleol wrth gyflawni gwaith iechyd a diogelwch neu ragofalon rheoli risg eraill neu wariant cyfalaf y mae'r Awdurdod Lleol yn atebol amdano lle mae cyllid wedi'i ddirprwyo i'r corff llywodraethu at waith o'r fath, ond bod y corff llywodraethu wedi methu â chyflawni'r gwaith angenrheidiol.
- Gwariant gan yr Awdurdod Lleol a dynnwyd wrth wneud gywiro diffygion mewn gwaith adeiladu a ariennir gan wariant o gyfrannau cyllideb, lle mae'r safle yn eiddo i'r Awdurdod Lleol neu lle mae gan yr ysgol statws gwirfoddol a reolir.
- Gwariant a dynnwyd gan yr Awdurdod Lleol wrth sicrhau ei fuddiannau ei hun mewn ysgol lle dirprwywyd cyllid at ddibenion yswiriant, ond bod yr ysgol wedi methu â dangos ei bod wedi trefnu sicrwydd yswiriant sydd o leiaf cystal â'r hyn a fyddai wedi'i drefnu gan yr Awdurdod Lleol.
- Adennill arian sy'n ddyledus gan ysgol am wasanaethau a ddarperir i'r ysgol, lle y cyfeiriwyd anghydfod ynghylch yr arian sy'n ddyledus i weithdrefn anghydfodau sydd wedi'i gosod mewn cytundeb lefel gwasanaeth, ac mai'r canlyniad yw bod

arian yn ddyledus gan yr ysgol i'r Awdurdod Lleol.

- Adennill cosbau a orfodwyd ar yr Awdurdod Lleol gan Fwrdd Cyllid y Wlad, yr Asiantaeth Gyfraniadau, Tollau Tramor a Chartref ei Mawrhydi, Pensiynau Athrawon neu awdurdodau rheoleiddio o ganlyniad i esgeulustod ysgol.
- Cywiro camgymeriadau'r Awdurdod wrth gyfrifo codi tâl o gyfran y gyllideb (e.e. didyniadau pensiwn).
- Costau trafnidiaeth ychwanegol a dynnir gan yr Awdurdod yn deillio o benderfyniadau gan y corff llywodraethu ynghylch hyd y diwrnod ysgol. Methiant i hysbysu'r Awdurdod am ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau i ddisgyblion sy'n arwain at gostau trafnidiaeth ddiangen, achosion o gau neu gau yn rhannol heb iddynt gael eu hawdurdodi sy'n arwain at gostau trafnidiaeth ddiangen.
- Costau cyfreithiol (a chostau eraill tebyg) a dynnir gan yr Awdurdod Lleol gan nad oedd y corff llywodraethu wedi dilyn cyngor yr Awdurdod Lleol (gweler paragraff 11.2 hefyd).
- Costau hyfforddiant iechyd a diogelwch angenrheidiol i staff a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol, lle'r oedd arian ar gyfer hyfforddiant wedi'i ddirprwyo ond bod yr hyfforddiant angenrheidiol heb ei gyflawni.
- Iawndal a delir i fenthyciwr pan fydd ysgol yn llunio contract ar gyfer benthyg y tu hwnt i'w phwerau cyfreithiol ac mae'r contract yn methu â chael effaith.
- Cost gwaith a wneir mewn perthynas â thaliadau a chofnodion pensiwn athrawon i ysgolion sy'n defnyddio contractwyr cyflogres ar wahân i'r Awdurdod, a'r tâl fydd y lleiafswm sydd ei angen i dalu costau'r Awdurdod Lleol i gydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol.
- Costau a dynnir gan yr Awdurdod Lleol wrth sicrhau darpariaeth a nodir mewn datganiad AAA lle bo corff llywodraethu ysgol wedi methu â sicrhau darpariaeth o'r fath er bod arian wedi'i ddirprwy mewn perthynas â'r datganiad hwnnw.
- Costau a dynnwyd gan yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i'r ysgol yn cyflwyno data anghywir.
- Adennill symiau a wariwyd o grantiau penodol ar ddibenion anghymwys.
- Costau a dynnwyd gan yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i'r corff llywodraethu yn torri telerau'r contract.
- Iawndal llog a dalwyd i gyflenwyr yn unol â Deddf Taliadau Dyledion Masnachol Hwyr (Llog) 1998 lle talwyd anfonebau yn hwyr o ganlyniad i'r ysgol yn methu â phrosesu'r anfoneb yn brydlon.
- Pe byddai'r Awdurdod Lleol yn colli unrhyw incwm grant (e.e. Cronfa Ysgolion Gwell) o ganlyniad i ysgolion yn methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau'r grant, bydd yr ysgol yn gyfrifol am gost y golled honno.
- Bydd ysgolion yn atebol am unrhyw golledion cyfradd newid arian cyfred a gaiff eu tynnu gan yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i'w gweithredoedd.
- Costau rhesymol a dynnir gan yr Awdurdod Lleol pe gweithredir ymyrraeth yn unol ag adran 14 ac adran 17 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

7.2.2 Ym mhob un o'r amgylchiadau a ddisgrifir uchod, rhaid i'r Awdurdod Lleol allu dangos y bu'n rhaid iddo dynnu'r gwariant a godir yn awr ar gyfran y gyllideb.

# 8.0 TRETHIANT

## 8.1 Treth Ar Werth

8.1.1 Bydd ysgolion yn derbyn canllawiau TAW ar wahân yn ôl y gofyn a fydd yn rhoi cyngor manwl ar faterion TAW, gan gynnwys gosod, ffioedd a thaliadau, codi arian a gwerthu asedau a TAW a dynnir ar eitemau o wariant.

8.1.2 Rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn cael cyfrif gan y cyflenwr mewn ffurf ragnodedig sy'n gorfod cynnwys Rhif Cofrestru TAW y cyflenwr lle y bo'n briodol er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau TAW. Bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol adennill TAW ar dderbynebau ac anfonebau unigol. Gallai methu â gwneud hyn olygu y codir gwerth gros y cyfrif ar yr ysgol, hynny yw yn cynnwys TAW.

8.1.3 Yn gyffredinol, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cytuno y gall yr Awdurdod Lleol adennill y TAW a dynnir gan ysgolion wrth wario unrhyw arian a wnaed ar gael gan yr Awdurdod Lleol. Nid yw hyn yn cynnwys gwariant gan lywodraethwyr ysgol wirfoddol a gynorthwyir wrth ymgymryd â'u cyfrifoldeb statudol i gynnal a chadw adeiladwaith allanol yr adeiladau.

8.1.4 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r angen posibl i gofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi os ydynt yn ymgymryd â gweithgarwch masnachu sylweddol drwy sefydliadau elusennol neu wirfoddol sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

8.1.5 Bydd ysgolion sy'n dewis cynnal eu cyfrifon banc eu hunain yn talu eu cyflenwyr yn cynnwys TAW ac yn codi TAW ar bob incwm a dderbyniant sy'n destun TAW. Bydd gofyn i ysgolion gyfrif am TAW a delir ac a dderbynnir yn fisol gan yr Awdurdod Lleol, ar y ffurflenni profforma a ddarperir. Mae rheolau llym ynghylch adennill TAW. Rhaid i ysgolion lynu wrth amserlen yr Awdurdod Lleol (rhaid derbyn ffurflen TAW erbyn seithfed diwrnod y mis canlynol) er mwyn cyflwyno ffurflenni misol, a allai newid o dro i dro yn sgil newidiadau deddfwriaethol; fel arall bydd ysgolion yn atebol am unrhyw gosb a dynnir gan yr Awdurdod Lleol am ddiffyg cydymffurfiaeth. Bydd ysgolion yn derbyn y TAW a adenillir ar eu rhan.

## 8.2 Cynllun Trethiant y Diwydiant Adeiladu

8.2.1 Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu'r cynllun hwn lle mae pob taliad i Gontractwyr, am waith cymwys, yn ddarostyngedig i Gynllun Treth y Diwydiant Adeiladu. Mae hyn yn berthnasol i waith a gaiff ei gaffael drwy'r Awdurdod (Prosiectau Cyfalaf a gwaith atgyweirio) yn ogystal â gwaith a gaiff ei gaffael yn uniongyrchol gan ysgolion.

8.2.2 Mae hyn yn berthnasol i bob ysgol sy'n rhan o'r cynllun hwn gan gynnwys y rhai lle y gweithredir cyfrif banc lleol. Lle caiff gwaith adeiladu ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol, bydd gofyn i ysgolion lynu wrth ganllawiau'r Awdurdod Lleol.

# 9.0 Darparu Gwasanaethau a Chyfleusterau gan yr Awdurdod Lleol

## 9.1 Darparu Gwasanaethau o Gyllidebau Wrth Gefn Canolog

9.1.1 Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu ar ba sail y caiff gwasanaethau o gronfeydd wrth gefn canolog, gan gynnwys costau ymddeol yn gynnar a thaliadau diswyddo, eu darparu i ysgolion. Ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn dymuno gwahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau ar sail categori ysgol ac eithrio:-

- lle mae arian wedi'i ddirprwy i rai ysgolion yn unig, neu
- lle bydd gwahaniaethu o'r fath wedi'i gyfiawnhau gan wahaniaethau mewn dyletswyddau statudol.

## 9.2 Darparu Gwasanaethau a Brynir yn ôl oddi wrth yr Awdurdod Lleol gan Ddefnyddio Cyllidebau Dirprwyedig

9.2.1 Mae cyfnod unrhyw drefniad i brynu gwasanaethau neu gyfleusterau oddi wrth yr Awdurdod Lleol wedi'i gyfyngu i ddim hwy na phum mlynedd o ddyddiad y cytundeb. Nid oes cyfyngiad rhagnodedig o ba mor fyr y gall cyfnod fod ond bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau gwerth gorau wrth bennu hyd cytundebau i ddarparu gwasanaethau.

9.2.2 Pan y darperir gwasanaeth lle na ellir cadw gwariant amdano yn ganolog gan yr Awdurdod Lleol, rhaid ei gynnig am brisiau gyda'r bwriad o gynhyrchu incwm heb fod yn llai na'r gost o ddarparu'r gwasanaethau hynny. Rhaid i gyfanswm yr incwm fod yn ddigonol i dalu cyfanswm cost y gwasanaeth, hyd yn oed os codir tâl yn wahaniaethol ar ysgolion.

## 9.3 Pecynnu

9.3.1 Nid yw ysgolion o dan unrhyw reidrwydd i brynu gwasanaethau neu gyfleusterau oddi wrth yr Awdurdod Lleol a bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio peidio â phecynnu gwasanaethau mewn ffordd a allai gyfyngu'n afresymol ar ryddid ysgolion i ddewis y gwasanaethau. Lle y bo'n ymarferol, cynigir darpariaeth fesul gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i becynnu gwasanaethau neu gyfleusterau penodol gyda'i gilydd er mwyn gallu eu cynnig ar gyfraddau gostyngedig i ysgolion neu er mwyn sicrhau gwerth gorau.

## 9.4 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

9.4.1 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori ag ysgolion ynghylch y gwasanaethau neu'r cyfleusterau hynny y dymuna'r ysgolion i'r Awdurdod Lleol eu darparu o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Serch hynny, mae'n cadw'r hawl i beidio â chynnig gwasanaethau os nad oes galw digonol gan yr ysgolion neu os yw'r gwasanaeth yn aneconomaidd neu os nad yw'n ateb gofynion gwerth gorau eraill.

9.4.2 Mae rhai gwasanaethau a chyfleusterau a gynigir gan yr Awdurdod Lleol drwy gytundebau lefel gwasanaeth ar gael i ysgolion ar sail ad hoc (hynny yw, am gyfnodau neu ar ysbeidiau sy'n fyrrach na hyd y cytundeb) ond mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i godi am wasanaethau ad hoc o'r fath ar gyfradd wahanol i wasanaethau a ddarperir o dan gytundeb lefel gwasanaeth.

## 10.0 Menter Cyllid Preifat (PFI)

10.1.1 PFI yw un o'r prif ddulliau y gall y sector cyhoeddus ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r sector preifat.

10.1.2 Fel arfer, bydd Awdurdod Lleol yn prynu gwasanaeth cyfalaf-ddwys oddi wrth ddarparwr sector preifat dros gyfnod contract hirdymor. Yn aml, bydd y gwasanaeth yn cynnwys darparu a chynnal a chadw, i safon benodol, cyfleuster lle bydd staff yr Awdurdod ei hun yn cyflenwi gwasanaeth craidd oddi mewn i'r cyfleuster hwnnw, er enghraifft, ysgol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn talu am y gwasanaeth fel a phan y caiff ei dalu mewn symiau a nodir yn y contract. Bydd taliadau yn amrywio yn dibynnu ar berfformiad y sector preifat a/neu'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Bydd y contractwr yn cymryd cyfrifoldeb dros fuddsoddi yn yr asedau cyfalaf sydd eu hangen, yn ariannu'r buddsoddiad hwnnw, ac wedyn yn rheoli'r cyfleusterau i ddarparu'r lefel benodol o wasanaeth i'r Awdurdod Lleol. Bydd y sector preifat yn cymryd y fenter fusnes sydd ynghlwm wrth ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth am y lefel o daliadau sydd yn y contract.

10.1.3 Os yw prosiect PFI ysgol yn debygol o gael ei ddatblygu, rhaid sicrhau Memorandwm / Cytundeb â Phennaeth / Llywodraethwyr yr Ysgol cyn llofnodi'r contract PFI. Bydd y Memorandwm / Cytundeb yn nodi'r elfennau hynny o wasanaeth a chostau'r gyllideb Ariannu Teg ddirprwyedig a gaiff eu trosglwyddo yn ôl i'r Cyngor i'w gosod yn erbyn taliadau gwasanaeth o dan y PFI e.e. arlwyo, glanhau, cynnal a chadw, costau cyfleustodau, ynghyd ag elfen ar gyfer adnewyddu offer a chostau'n ymwneud â staff sy'n drosglwyddadwy o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth).

# 11.0 Yswiriant a Rheoli Risgiau

## 11.1 Gwarchodaeth Yswiriant

11.1.1 Caiff arian ar gyfer y rhan fwyaf o yswiriannau ei gadw'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Os yw arian wedi'i ddirprwy i ysgolion mewn perthynas ag yswiriannau, bydd gofyn i ysgolion ddangos bod y warchodaeth yswiriant sy'n berthnasol i fuddiannau yswiriadwy'r Awdurdod Lleol o leiaf cystal â'r warchodaeth berthnasol leiaf a drefnwyd gan yr Awdurdod Lleol o dan unrhyw drefniadau a wneir gan y corff llywodraethu. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y gwir risg y gellir ei ddisgwyl yn yr ysgol dan sylw wrth weithredu'r gofyniad hwn.

11.1.2 Mae canllawiau ychwanegol ar gael i ysgolion ac maent yn cynnwys crynodeb o'r yswiriannau sydd gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd ac yswiriannau ychwanegol y gall ysgolion eu cael drwy'r Awdurdod Lleol os ydynt yn dymuno.

## 11.2 Ysgolion sy'n Dymuno Cael Yswiriant Ychwanegol

11.2.1 Mae rhai risgiau nad ydynt yn rhan o warchodaeth yswiriant yr Awdurdod cyfan. Os yw ysgol unigol yn dymuno cael yswiriant yn erbyn risg nad yw o dan warchodaeth yr Awdurdod Lleol, gallai drefnu'r warchodaeth yswiriant angenrheidiol briodol a thalu'r premiymau o'i chyllideb ddirprwyedig.

## 11.3 Atebolrwydd Llywodraethwyr

11.3.1 Mae deddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldebau statudol penodol ar lywodraethwyr y mae disgwyl iddynt eu cyflawni. Serch hynny, gan mai corff corfforaethol yw corff llywodraethu ysgol ac yn sgil telerau adran 50(7) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol, nid oes atebolrwydd personol ar lywodraethwyr ysgolion a gynhelir wrth iddynt arfer y pwerau i wario'r gyfran o'r gyllideb ddirprwyedig, cyhyd ag y bônt yn gweithredu yn ddidwyll.

11.3.2 Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwarchodaeth yswiriant benodol mewn perthynas â llywodraethwyr ysgol.

11.3.3 Nid yw'r warchodaeth yswiriant a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol a'r darpariaethau mewn deddfwriaeth yn ymwneud â gweithrediadau 'didwyll' yn golygu nad oes unrhyw bosibilrwydd o atebolrwydd personol. Gellid dal llywodraethwyr yn bersonol gyfrifol yn yr achosion canlynol:

- ymddygiad llwgr neu fwriadol afreolaidd;
- esgeulustod difrifol neu fwriadol; er enghraifft, mewn perthynas â materion Iechyd a Diogelwch;
- unrhyw weithred droseddol fwriadol sy'n arwain at gyhuddiad o ddynladdiad corfforaethol;
- dirwyon neu gosbau o unrhyw fath;
- amddiffyn unrhyw achos troseddol a ddygir neu mewn apêl yn erbyn collfarn a gwyd o achos o'r fath mewn perthynas â mynd yn groes i:-
    - Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan hynny; a
    - Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987 neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan hynny.

# 12.0 Amrywiol

## 12.1 Hawl i Gael Mynediad at Wybodaeth

12.1.1 Bydd gofyn i gyrff llywodraethu ddarparu'r holl wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth resymol arall a fydd angen er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i'w fodloni ei hun ynghylch rheolaeth yr ysgol o'i chyfran o'r gyllideb ddirprwyedig. Nid yw'r gofyniad hwn yn cwmpasu copïau o adroddiadau mewnol i'r corff llywodraethu ar faterion ariannol.

12.1.2 Fel rhan o'r gwaith o archwilio cyfrifon yr Awdurdod Lleol, gallai unrhyw un sydd â diddordeb gael golwg ar y cyfrifon (rhwng dyddiadau a hysbysebir yn benodol) sydd i'w harchwilio a phob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy a gwneud copïau o'r cyfan neu unrhyw ran o'r cyfrifon a'r dogfennau eraill hynny (Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). Gall ysgolion godi tâl rhesymol am y gwasanaeth hwn er mwyn talu costau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddogfennau a gedwir gan ysgolion.

12.1.3 Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau a gedwir ganddynt mewn modd amserol os gwneir cais am hynny. Bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu ymlaen llaw am geisiadau o'r fath oni bai bo hynny'n anymarferol. Ceir ceisiadau ychwanegol am wybodaeth yn awr o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sydd â therfynau amser i ddychwelyd y wybodaeth a bydd gofyn i'r ysgol ddarparu gwybodaeth a gedwir ganddi.

## 12.2 Treuliau Llywodraethwyr

12.2.1 Dylai cyrff llywodraethu bennu eu polisi eu hunain ynghylch lwfansau treuliau. Os mai polisi corff llywodraethu yw y caiff llywodraethwyr hawlio treuliau, rhaid i bob taliad gael ei wneud yn unol â chynllun lwfans a luniwyd gan y corff llywodraethu. Ni ellir talu lwfansau presenoldeb nac am unrhyw golled o enillion i lywodraethwyr. Nid oes yn rhaid i lywodraethwr(aig) hawlio'r treuliau y mae ganddo ef/hi hawl iddynt.

12.2.2 Os yw aelod o Gyngor Sir Ceredigion yn bresennol mewn cyfarfod Corff Llywodraethu ac yn cyflawni dyletswyddau yn rhinwedd ei (g)waith fel Llywodraethwr(aig), gellir hawlio lwfans teithio a chynhaliaeth ond nid lwfans presenoldeb. Caiff y treuliau eu talu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

12.2.3 Caiff unrhyw dreuliau'n ymwneud â phresenoldeb Llywodraethwyr mewn cyfarfodydd eu codi yn erbyn cyllideb ddirprwyedig ysgol unigol. Rhaid dangos y gwariant hwn yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni.

12.2.4 Ni chaiff ysgolion ddyblygu taliadau a dalwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i lywodraethwyr ychwanegol a benodwyd ganddo ef / ganddi hi i ysgolion sy'n destun mesurau arbennig.

12.2.5 Gallai Awdurdod Lleol ddirprwyo i gorff llywodraethu ysgol sydd heb dderbyn cyllideb ddirprwyedig eto, arian i dalu treuliau llywodraethwyr.

## 12.3 Cyfrifoldeb am Gostau Cyfreithiol

12.3.1 Os yw llywodraethwyr yn gweithredu'n ddidwyll wrth arfer eu dyletswyddau neu arfer eu dyletswyddau yn honedig, gan roi sylw priodol i'w cyfrifoldebau statudol ac i gyngor a fframwaith polisi'r Awdurdod Lleol, ni fydd gofyn iddynt fel arfer dalu am gostau cyfreithiol eu gweithredoedd, gan gynnwys costau a ddyfernir yn erbyn yr Awdurdod Lleol. Drwy ddilyn cyngor, canllawiau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol, caiff unrhyw gostau cyfreithiol a gwyd i'r corff llywodraethu, er enghraifft, o dribiwnlysoedd diwydiannol, eu talu gan yr Awdurdod Lleol.

12.3.2 Os nad yw Corff Llywodraethu yn gweithredu yn unol â chyngor yr Awdurdod Lleol, ac yn tynnu costau cyfreithiol yn sgil hynny, caiff y costau cyfreithiol eu codi yn erbyn cyfran yr ysgol o'r gyllideb (oni bai eu bod yn ymwneud â chyfrifoldeb statudol llywodraethwyr ysgol a gynorthwyir ynghylch adeiladau).

12.3.3 Mewn unrhyw achos lle mae gwrthdaro buddiannau rhwng yr Awdurdod Lleol a chorff llywodraethu, gallai llywodraethwyr geisio cyngor annibynnol, a gellir tynnu unrhyw gostau a gwyd o hynny o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

## 12.4 Iechyd a Diogelwch

12.4.1 Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ei gyfrifoldebau fel sydd wedi'u gosod yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i gynnal amodau gwaith diogel i'w gyflogeion, disgyblion, ymwelwyr ac eraill ar ei dir ac yn ei adeiladau ac mae'n ymrwymedig i gyflawni safonau uchel yn hyn o beth. Wrth weithredu'r Polisi, bydd yr Awdurdod Lleol yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth Rheoli Risgiau yr Awdurdod Lleol.

12.4.2 Caiff rhwymedigaethau statudol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch mewn sefydliadau addysgol eu rhannu rhwng yr Awdurdod Lleol, y corff llywodraethu a chyflogeion sy'n seiliedig yn yr ysgol. Yr Awdurdod Lleol sy'n cadw'r cyfrifoldeb cynradd fel y cyflogwr a'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd fel rhan o'i gyfrifoldeb dirprwyedig dros weithgarwch, safle, peiriannau, offer a sylweddau sydd o dan ei reolaeth. Mae cyfrifoldebau rheolwyr safle, gan gynnwys rheolwyr safle ysgol, wedi'u gosod yn Nogfen yr Awdurdod Lleol, "*Iechyd a Diogelwch – Arfer Da wrth Reoli Safle*".

12.4.3 Wrth wario cyfran yr ysgol o'r gyllideb, rhaid i gyrff llywodraethol dalu sylw priodol i'r dyletswyddau sydd ar yr Awdurdod Lleol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a rhaid iddynt gydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion Iechyd a Diogelwch statudol perthnasol a Pholisïau Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Lleol. Mae canllawiau pellach ar gael yn hyn o beth.

## 12.5 Hawl y Prif Swyddog Cyllid i Fod yn Bresennol

12.5.1 Mae gofyn i gyrff llywodraethu ganiatáu i Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol neu unrhyw swyddog arall o'r Awdurdod Lleol a enwebir gan y Prif Swyddog Cyllid, fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu ar gyfer unrhyw eitemau agenda sy'n berthnasol i arfer ei gyfrifoldebau/chyfrifoldebau, a hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid o eitem/eitemau yr agenda ymlaen llaw.

## 12.6 Dirprwyo i Ysgolion Newydd

12.6.1 Pe caiff ysgol newydd ei sefydlu, gallai'r Awdurdod Lleol ddyrannu i'r corff llywodraethu dros dro unrhyw gostau cymeradwy sy'n angenrheidiol i weithredu ei swyddogaethau statudol cyn agor yr ysgol. Byddai hyn yn cynnwys cyflog y Pennaeth y gallai fod gofyn iddo/iddi, mewn achosion ar wahân i uno ysgolion, gymryd at y swydd am gyfnod cyn agor yr ysgol, costau penodi staff a chostau mewn perthynas ag eitemau adnodd.

12.6.2 Caiff adnoddau eu dyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf gan ddefnyddio'r fformiwla gyllido. Bydd yr arian a neilltuir yn seiliedig ar ragolwg yr Awdurdod o nifer y disgyblion a ragamcanir ar gyfer y dyddiad agor ac yn unol ag unrhyw ofynion a gytunwyd. Ni chaiff hyn ei addasu pe byddai gwir nifer y disgyblion yn wahanol. Gwneir trefniadau i adennill adnoddau o gyllideb bresennol ysgolion perthnasol y gall agor ysgol newydd effeithio arnynt.

## 12.7 Opsiwn i Dderbyn Eitem o Gyllid Dirprwyedig

12.7.1 Pe byddai ysgol yn arfer dewis i dderbyn cyllid dirprwyedig ar gyfer eitem, dim ond unwaith y flwyddyn y ceir arfer y dewis hwnnw, ar ddyddiad cyn y flwyddyn ariannol dan sylw ac i'w bennu gan yr Awdurdod Lleol.

## 12.8 Anghenion Dysgu Ychwanegol

12.8.1 Mae gofyn i ysgolion sicrhau darpariaeth effeithiol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac, wrth wneud hynny, dylent ystyried gwneud trefniadau ar sail yr holl adnoddau dirprwyedig ac nid dim ond y rhai a ddirprwywyd yn benodol o dan ddarpariaethau â Datganiad, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol.

12.8.2 Mae ar ysgolion ddyletswydd statudol i nodi a darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol eu disgyblion a gallant ddefnyddio eu cyfran o'r gyllideb er mwyn diwallu anghenion o'r fath. Pe byddai ysgol yn peidio â chyflawni ei chyfrifoldebau yn y cyd-destun hwn yn sylweddol a pharhaus, gallai'r Awdurdod Lleol gychwyn ar achos i atal statws dirprwyedig.

## 12.9 Chwythu'r Chwiban

12.9.1 Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol fod â gweithdrefnau yn ei lle i'w dilyn gan bobl sy'n gweithio mewn ysgol neu lywodraethwyr ysgol sy'n dymuno cwyno am reolaeth ariannol neu briodoldeb ariannol yn yr ysgol a darparu gwybodaeth ynghylch sut yr ymdrinnir â chŵyn o'r fath. Dylai unrhyw bryderon neu gwynion a godir gan gyflogeion yr Awdurdod Lleol ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn 'Polisi Chwythu'r Chwiban' Cyngor Sir Ceredigion. Dylai unrhyw gwynion a gwyd gan aelodau'r cyhoedd ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn 'Llawlyfr Gweithdrefn Gwynion' yr Awdurdod Lleol.

## 12.10 Amddiffyn Plant

12.10.1 O bryd i'w gilydd, bydd gofyn i ysgolion ryddhau staff i fynd i gynadleddau achos amddiffyn plant a digwyddiadau perthynol. Mae cyllid i dalu costau o'r fath yn y cyllidebau dirprwyedig.

12.10.2 Dylai pob cyflogai a gyflogir gan yr ysgol dderbyn gwiriad manylach y CRB a gaiff ei dalu gan yr ysgol a rhaid i bob cyflogai ddarparu 2 ganolwr cyn cael eu penodi.

## 12.11 Prydau Ysgol

12.11.1 Wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chyllid dirprwyedig ar gyfer prydau ysgol, mae gofyn i gyrff llywodraethu ystyried unrhyw bolisïau y gallai fod gan yr Awdurdod Lleol yn eu lle mewn perthynas â phrydau ysgol.

# 13.0 Cyfrifoldeb am Atgyweirio a Chynnal a Chadw

13.1.1 Cafodd yr holl gyllid ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ei ddirprwyo i ysgolion i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2000, ac eithrio cyllid mewn perthynas â gwariant cyfalaf a gedwir yn ganolog. Dim ond am y rhesymau canlynol y gall Awdurdod Lleol drin gwariant fel cyfalaf:

A) Mae'r gwariant yn cyd-fynd â'r diffiniad o gyfalaf yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol o dan God Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cwmpasu dau brif faes:-

- Caffael neu greu ased sefydlog newydd.
- Gwella ased sefydlog presennol, lle mae 'gwella' yn golygu ymgymryd â gwaith gyda'r bwriad o:
  - Ymestyn oes defnydd yr ased **yn sylweddol**, neu
  - Cynyddu gwerth marchnad yr ased **yn sylweddol**, neu
  - Cynyddu **yn sylweddol** i ba raddau y gellir defnyddio'r ased, neu y caiff yr ased ei ddefnyddio, at ddibenion neu mewn cyswllt â swyddogaethau'r awdurdod lleol dan sylw.

B) Mae'r gwariant yn cyd-fynd â'r diffiniad o gyfalaf o dan gyfarwyddyd Cyfalafu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

C) Mae'r gwariant wedi'i ddiffinio gan reoliad penodol a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (fel y'i diwygiwyd).

13.1.2 Pe byddai angen arweiniad ar ddosbarthiad gwariant, dylid ceisio cyngor gan dîm Cyfrifyddu Corfforaethol y Cyngor. Bydd penderfyniad y Cyngor ar ddosbarthiad gwariant fel naill ai refeniw neu gyfalaf yn unol â pharagraffau 13.1 yn derfynol.

13.1.3 Mae Atodiad 4.2 yn rhoi manylion categorïau'r gwaith y bydd:-

- Cyrff Llywodraethu; a'r
- ALl yn gyfrifol amdanynt.

## 13.2 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

13.2.1 Bydd cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u cyfrifoldebau statudol dros adeiladau a safle. Yn ychwanegol, byddant yn gyfrifol am eitemau atgyweirio a chynnal a chadw eraill ar yr un sail ag Ysgolion Cymunedol a Sefydledig.

## 13.3 Ceginau

13.3.1 Dirprwywyd pob cyllid ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ceginau ac offer cegin i ysgolion, gan fod yn weithredol o 1 Ebrill 2000.

# Atodiad 1

***Ysgolion Cynradd Cymunedol:***

- Ysgol Gynradd Gymunedol Aberaeron
- Ysgol Gynradd Gymunedol Cilcennin
- Ysgol Gynradd Gymunedol Ciliau Parc
- Ysgol Gynradd Gymunedol Dihewyd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Felin-fach
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llannarth
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llan-non
- Ysgol Gynradd Gymunedol Cei Newydd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Talgarreg
- Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg
- Ysgol Gynradd Gymunedol Comins Coch
- Ysgol Gynradd Gymunedol Cwmpadarn
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llanafan
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynfelyn
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfarian
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfihangel-y-Creuddyn
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llangwyryfon
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar
- Ysgol Gynradd Gymunedol Mynach
- Ysgol Gynradd Gymunedol Penllwyn
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llwyn yr Eos
- Ysgol Gynradd Gymunedol Syr John Rhys
- Ysgol Gynradd Gymunedol Rhydypennau
- Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
- Ysgol Gynradd Gymunedol Aberporth
- Ysgol Gynradd Gymunedol Beulah
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc
- Ysgol Gynradd Gymunedol Cwrtnewydd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Ffynnon-bedr
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llanwnnen
- Ysgol Gynradd Gymunedol Coed-y-bryn
- Ysgol Gynradd Gymunedol Glynarthen
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llandysul
- Ysgol Gynradd Gymunedol Pontgarreg
- Ysgol Gynradd Gymunedol Pont-siân
- Ysgol Gynradd Gymunedol Rhydlewis
- Ysgol Gynradd Gymunedol Trewen
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llanddewi Brefi
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llangeitho
- Ysgol Gynradd Gymunedol Penuwch
- Ysgol Gynradd Gymunedol Pontrhydfendigaid
- Ysgol Gynradd Gymunedol Tregaron
- Ysgol Gynradd Gymunedol Blaenporth
- Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug
- Ysgol Gynradd Gymunedol Craig yr Wylfa

- Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhyn-coch
- Ysgol Gynradd Gymunedol Aber-banc
- Ysgol Gynradd Gymunedol Y Dderi
- Ysgol Gynradd Gymunedol Cenarth
- Ysgol Gynradd Gymunedol Aberteifi
- Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Siôn Cwilt
- Ysgol Gynradd Gymunedol Rhos-y-Wlad
- Ysgol Gynradd Gymunedol T Llew Jones

***Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Reolir:***

- Ysgol Wirfoddol Myfenydd
- Ysgol Wirfoddol Trefilan

***Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir:***

- Ysgol Gynradd Padarn Sant
- Ysgol Gynradd Llanwenog

***Ysgolion Uwchradd:***

- Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan
- Ysgol Gyfun Aberaeron
- Ysgol Uwchradd Aberteifi
- Ysgol Uwchradd Tregaron
- Ysgol Penglais
- Ysgol Gyfun Penweddig
- Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi

# Atodiad 2

Atal Dirprwyaeth Ariannol

Wrth weithredu eu pwerau dirprwyedig ar gyfer rheolaeth ariannol ysgolion, bydd llywodraethwyr yn rhwym wrth yr amodau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y cynllun hwn ac unrhyw reoliadau ariannol eraill y mae'r Awdurdod wedi'u cyhoeddi:

Atal Dirprwyaeth

Ni fydd dirprwyaeth ariannol, wedi ei rhoi, yn cael ei hatal oni bai bod corff llywodraethu:

(i) yn methu'n sylweddol neu'n gyson â chydymffurfio ag unrhyw ofynion y cynllun;

(ii) yn methu â rheoli ei gyllideb mewn modd rhesymol a boddhaol;

(iii) bod yr Awdurdod Lleol yn fodlon yn unol ag adrannau 14-17 o Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion bod bygythiad i ddiogelwch disgyblion neu staff neu bod yr ysgol yn tangyflawni'n ddifrifol o ganlyniad i fethiant i reoli neu lywodraethu'r ysgol.

Rhybudd o Ataliad

(i) Os bydd yr Awdurdod Lleol yn bwriadu atal hawl y corf llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig bydd yn rhoi i gorff llywodraethu'r ysgol dan sylw o leiaf fis o rybudd o'r ataliad, oni bai, oherwydd anallu dybryd neu gamreoli ar ran y corff llywodraethu neu unrhyw argyfwng arall, bod yr Awdurdod Lleol yn gweld bod angen:

(a) rhoi cyfnod byrrach o rybudd i'r corff llywodraethu, neu

(b) rhoi rhybudd i'r corff llywodraethu bod eu hawl i gyllideb o'r fath wedi'i atal ar unwaith.

(ii) Bydd rhybudd yn nodi'r rhesymau dros yr ataliad, gan roi manylion:

(a) unrhyw fethiant ar ran y corff llywodraethu i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad neu gyfyngiad ar y ddirprwyaeth;

(b) unrhyw gamreoli honedig ar eu rhan ac

(c) os yw'n berthnasol, y rhesymau oedd yn sail i roi cyfnod o rybudd o lai na mis o dan is-baragraff (i)

(iii) Bydd y rhybudd hefyd yn hysbysu'r corff llywodraethu bod ganddo'r hawl i apelio yn erbyn yr ataliad o dan baragraff (ii) a'r amser sydd ganddo i gyflwyno apêl o'r fath.

(iv) Rhoddir copi o'r rhybudd i bennaeth yr ysgol ar yr un pryd ag y rhoddir y rhybudd i'r corff llywodraethu.

(v) Bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon copi o'r rhybudd i Lywodraeth Cymru.

(vi) Rhoddir unrhyw rybudd yn ysgrifenedig.

(vii) Bydd gan y corff llywodraethu yr hawl i apelio i Lywodraeth Cymru yn erbyn unrhyw benderfyniad i atal dirprwyaeth ariannol.

Mewn achos lle mae dirprwyaeth wedi'i hatal, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ariannu'r ysgol ar lefel ei chyfran o'r gyllideb.

Os bydd dirprwyaeth wedi'i hatal, bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r sefyllfa yn flynyddol ac yn rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wneir gan bennaeth neu lywodraethwyr yr ysgol. Cymerir camau cywirol er mwyn adfer dirprwyaeth cyn gynted â phosibl.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu peidio ag adfer dirprwyaeth yn dilyn adolygiad blynyddol, bydd gan y llywodraethwyr dan sylw yr hawl i apelio i Lywodraeth Cymru.

# Atodiad 3 – Y Gwerth Gorau i Ysgolion – Egwyddorion Cyffredinol

## Cyflwyniad

Gellir disgrifio Y Gwerth Gorau i Ysgolion fel dyletswydd i gyflenwi gwasanaethau i safonau eglur drwy'r dulliau mwyaf effeithiol, darbodus ac effeithlon sydd ar gael. Er nad yw'r llywodraeth yn bwriadu ymestyn dyletswydd statudol gwerth gorau i lywodraethwyr ysgol ar hyn o bryd, dylai ei egwyddorion cyffredinol fod yn berthnasol o ystyried gwariant sylweddol iawn Cynghorau sy'n llifo drwy gyllidebau ysgolion ac er mwyn sicrhau bod cyfran ysgol o'r gyllideb yn cael ei gwario er budd gorau'r plant y mae'n eu gwasanaethu.

Pennwyd targedau cyrhaeddiad cenedlaethol ar gyfer addysg, ac mae ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth (yng nghyd-destun Cynlluniau Strategol Addysg Ceredigion a dangosyddion perfformiad) i gytuno ar dargedau uchelgeisiol ar gyfer ysgolion a'r sir a fydd yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn codi safonau addysgol ar hyd a lled y sir.

## Egwyddorion Cyffredinol

Cadarnhaodd Papur Gwyn y llywodraeth, 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd' (BEST), o'r newydd bod ysgolion yn gyfrifol am eu safonau eu hunain ac am well eu perfformiad yn barhaus ac yn weithredol. Wrth baratoi cynlluniau datblygu ysgolion, cynllunio cyllidebau a gosod targedau, dylai llywodraethwyr ysgol roi ystyriaeth i egwyddorion cyffredinol gwerth gorau a amlinellir isod:

Mae Y Gwerth Gorau yn broses ysgol gyfan ac mae gan bob rhanddeiliad ran i chwarae ynddi.

Mae mwy i gyflawni Gwerth Gorau na darbodaeth ac effeithlonrwydd, megis effeithiolrwydd ysgol ac ansawdd y ddarpariaeth.

Dylai fod cyswllt amlwg rhwng cynllunio cyllideb a chynllunio datblygiad er mwyn sicrhau bod gwariant yn canolbwyntio ar wella'r ysgol.

Dylai ysgolion ymgorffori hunan adolygu a hunan arfarniad yn rhan annatod o'u hymgyrch barhaus i wneud gwelliannau.

Dylai ysgolion ddefnyddio amrywiaeth eang o ddangosyddion, gan sefydlu lefelau meincnodi perfformiad a safonau perfformiad yn y broses, i fesur eu perfformiad eu hunain, cymharu gyda pherfformiad ysgolion eraill a phennu targedau newydd.

Dylai ysgolion geisio sefydlu peirianwaith syml ar gyfer:

- mesur gwerth am arian;
- dangos ansawdd darpariaeth;
- ymdrin â chwynion;
- mesur lefelau bodlonrwydd â'r gwasanaethau a ddarperir;
- nodi anghenion rhanddeiliaid ac ymateb iddynt.

Nid oes unrhyw ofyniad cyffredinol i ysgolion roi eu gwasanaethau i dendr oni bai y caiff hyn ei ddatgan yn bendant ond nid oes unrhyw reswm chwaith pam y dylai ysgolion brynu

gwasanaethau'n uniongyrchol oddi wrth yr Awdurdod Lleol os oes ffyrdd mwy effeithlon a chost-effeithiol ar gael.

Dylai ysgolion wneud yn glir i'w holl randdeiliaid, yn enwedig rhieni a disgyblion, safonau'r ddarpariaeth y gallant eu disgwyl.

Dylai ysgolion ddatblygu amrywiaeth o ffyrdd o ymgynghori â rhanddeiliaid a mesur eu bodlonrwydd â gwaith yr ysgol a'i blaenoriaethau.

Dylai fod gan ysgolion weithdrefn gwyno eglur yn ei lle, sy'n cynnwys panel o lywodraethwyr yn y broses gwyno (Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion).

# Atodiad 4 – Cyfrifoldeb am Atgyweirio a Chynnal a Chadw

## Atodiad 4.1

## Rheoli Eiddo

**Cyfrifoldebau Cyrff Llywodraethu**

Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am:-

(a) yr holl waith hynny y nodir yn atodiad 4.2 eu bod yn gyfrifoldeb i'r Llywodraethwyr;

(b) trafod gyda'r Awdurdod Lleol ynghylch cynllunio unrhyw waith cynnal a chadw sydd wedi'i raglennu i sicrhau na wneir unrhyw waith yn ofer;

(c) cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a Pholisi Diogelwch Trydan yr Awdurdod Lleol. (Bydd y dogfennau hyn ar gael i Lywodraethwyr);

(d) peidio â defnyddio'r adeilad mewn modd sy'n niweidiol, yn ddiofyn, drwy esgeulustod neu fel arall, nac mewn modd a fydd yn effeithio'n andwyol ar warchodaeth yswiriant yr adeilad; ni fydd chwaith yn gorfodi rhwymedigaethau ychwanegol ar yr Awdurdod Lleol fel perchennog;

(e) darparu copïau i'r Awdurdod Lleol o bob cais, hysbysiad, caniatâd, cymeradwyaeth neu drwydded mewn perthynas â'r adeilad a wneir neu a dderbynnir gan y Llywodraethwyr; ac

(f) ymateb yn brydlon i unrhyw ofyniad am waith mewn argyfwng.

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol**

Yr Awdurdod Lleol sy'n atebol am:-

(a) yr holl waith y mae'n gyfrifol amdano fel a ddiffinnir yn Atodiad 4.2.

(b) trafod gyda'r Llywodraethwyr ynghylch unrhyw waith cyfalaf sydd wedi'i gynllunio.

(c) am gywiro unrhyw ddifrod a gafwyd o ganlyniad i fethiant yr Awdurdod Lleol i gyflawni ei rwymedigaethau o dan delerau'r cytundeb hwn, sy'n effeithio ar rwymedigaethau cynnal a chadw'r Llywodraethwyr.

**Cyfyngiadau ar Gamau Gweithredu'r Llywodraethwyr**

Ni fydd y Llywodraethwyr yn llunio unrhyw denantiaeth na thrwydded heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Lleol ac eithrio achosion lle na fydd hyn yn rhwystro defnydd o'r ysgol ar gyfer llogi neu drwyddedu dros dro yn unol â'r trefniadau a gytunwyd â'r Awdurdod Lleol.

Ni fydd y Llywodraethwyr yn addasu, newid, ymestyn nac yn dymchwel unrhyw ran o'r safle heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Lleol.

**Ynni a Dŵr**

Bydd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am dalu'r costau a dynnir wrth ddefnyddio tanwydd at ddibenion gwresogi, goleuo neu broses a chost defnyddio dŵr, boed ar fesurydd neu beidio. Os yw'r defnydd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i unrhyw ran nad yw'n rhan o'r ysgol, caiff y costau eu rhannu'n deg rhwng yr ysgol a'r defnyddiwr arall.

Bydd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am weithredu Polisi Effeithlonrwydd Ynni'r Awdurdod Lleol (a fydd ar gael i bob ysgol).

Bydd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am weithredu pob peiriant ac offer yn unol â safonau priodol yr Awdurdod Lleol neu'r gwneuthurwr ac yn sicrhau y cânt eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw i'r graddau y maent yn atebol, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithredu.

Bydd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a gwasanaethu yn ddigonol y peiriannau a'r offer hynny y maent yn gyfrifol amdanynt o dan Atodiad 4.2.

**Amrywiol**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod dogfennau a llawlyfrau ar gael i Lywodraethwyr yn ymwneud â'r rhwymedigaethau y bydd y naill a'r llall yn eu derbyn o dan y trefniadau a nodir yn y cytundeb hwn mewn perthynas â Pholisi Iechyd a Diogelwch, Polisi Diogelwch Trydan, Rheolaeth Ynni, Codau Ymarfer ynghylch ymgymryd â gwaith contractio, gan gynnwys trefniadau mewn argyfwng, Cod Ymarfer Asbestos, Codau ar gyfer defnyddio plaladdwyr wrth gynnal a chadw tir a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu'r cyflenwr ar gyfer gweithredu peiriannau ac offer.

Dylai Llywodraethwyr sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i'r staff hynny a allai fod yn gyfrifol am gamau gweithredu sy'n ymwneud â pholisïau, gweithdrefnau neu ganllawiau o'r fath.

## Atodiad 4.2

## Rhaniad Cyfalaf/Refeniw – Enghreifftiau Eglurhaol yn Unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol

Mae'r canllawiau canlynol yn gosod allan rhai enghreifftiau sy'n egluro'r rhaniad yn y cyfrifoldeb am waith adeiladu rhwng yr Awdurdod ac ysgolion unigol.  Ni fwriedir i hon fod yn ddogfen gwbl derfynol  ond yn hytrach, dylid ei hystyried fel canllaw gyda'r ysgolion yn gyfrifol am bob gwariant refeniw ar gyfer trwsio/cynnal a chadw, a'r Awdurdod yn gyfrifol am bob gwariant cyfalaf.

Lle bo angen canllaw penodol ar ddosbarthiad y gwariant, yna dylid gofyn i Dîm Cyfrifeg Corfforaethol y Cyngor am gyngor pellach.  Y Cyngor fydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â dosbarthu'r gwariant fel refeniw neu gyfalaf, yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol.

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| **Toeon**<br>Gwastad | Adeiladwaith.  Adeiladwaith newydd (ond nid adnewyddu). | Trwsio/adnewyddu  rhannau bychain o'r adeiladwaith presennol. | Adeiladwaith newydd a thrwsio/adnewyddu adeiladwaith. |
| | Adeiladwaith.  Adnewyddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r adeiladwaith presennol. | Adnewyddu rhannau bychain o goed wedi pydru neu sy'n ddiffygiol, cyweirio mannau bychain o goncrid pan fydd bariau atgyfnerthu i'w gweld. | Adnewyddu'r adeiladwaith. |
| | Sgrîd/ynysu mewn adeilad neu estyniad newydd. | Trwsio/adnewyddu sgrîd/ ynysu pan fyddant yn ddiffygiol. | Sgrîd/ynysu newydd a'u trwsio. |
| | Sgrîd ynysu.  Adnewyddu/ gwella'r cyfan fwy neu lai. Gwella effeithiolrwydd yr ynysu. | Gweithio i wella safonau ynysu yn ystod gwaith trwsio/adnewyddu ar rannau bychain o'r to. | Adnewyddu/trwsio sgrîd/ynysu. |
| | Gorffeniad adeilad newydd. Adnewyddu to cyfan/y rhan fwyaf o do presennol. | Ailgotio/cyweirio mannau o orffeniad to mewn adeilad presennol. | Gorffeniad adeilad newydd. Adnewyddu gorffeniad to mewn adeilad presennol. Ailgotio. |
| | Trimiau ymyl/estyll tywydd ar adeilad newydd. | Trwsio/adnewyddu adrannau unigol.  Ailbaentio. | Trimiau ymyl/estyll tywydd ar adeilad newydd a thrwsio/ adnewyddu/ail-baentio. |
| | Trimiau ymyl/estyll tywydd, adnewyddu'r cyfan/ y rhan fwyaf ar y to presennol. | Trwsio/adnewyddu adrannau unigol.  Ailbaentio. | Adnewyddu trimiau ymyl/estyll tywydd ar adeilad presennol. |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| | Draeniad adeilad newydd. | Clirio cafnau bargod a phibellau glaw. Adnewyddu/ trwsio/ail-baentio cafnau bargod/pibellau unigol. | Draeniad adeilad newydd a thrwsio/adnewyddu/ail-baentio (ond NID glanhau cafnau bargod/pibellau glaw). |
| | Arall e.e. Y sêl blwm a nenlampau ar adeilad newydd. Adnewyddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o do presennol. | Trwsio/adnewyddu/glanhau eitemau unigol. | Y sêl blwm/nenlampau ar adeilad newydd a thrwsio/adnewyddu (ond NID glanhau). |
| Ar Oleddf | Adeiladwaith. Adeiladwaith newydd (ond nid adnewyddu). | Trwsio/adnewyddu rhannau bychain o adeiladwaith presennol. | Adnewyddu adeiladwaith mewnol HEBLAW cyplau (h.y. trwsio mewnol). |
| | Adeiladwaith. Adnewyddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r adeiladwaith presennol. | Adnewyddu/trwsio rhannau bychain o distiau, trawstiau, tulathau ac ati sydd wedi pydru neu sy'n ddiffygiol. | Adnewyddu adeiladwaith mewnol HEBLAW cyplau (h.y. trwsio mewnol). |
| | Ynysu adeilad/estyniad newydd. | Trwsio/adnewyddu/cynyddu trwch yr ynysu o fewn adrannau unigol y to presennol. | Ynysu adeilad newydd a thrwsio/adnewyddu. |
| | Ynysu. Adnewyddu/gwella y cyfan fwy neu lai. Gwella'r ynysu hyd at y safonau presennol. | | Trwsio/adnewyddu neu wella'r ynysu. |
| | Gorffeniad to mewn adeilad/estyniad newydd, adnewyddu'r cyfan/y rhan fwyaf o do presennol. | Adnewyddu'r hyn sy'n eisiau/wedi'i niweidio. | Gorffeniad adeilad/estyniad newydd a thrwsio/adnewyddu mewn adeilad presennol. |
| | Ymylon bondo/estyll tywydd ar adeilad/estyniad newydd, adnewyddu'r cyfan/y rhan fwyaf o do presennol. | Trwsio/adnewyddu/ ail-baentio. | Ymylon bondo/estyll tywydd ar adeilad/estyniad newydd a thrwsio/adnewyddu/ail-baentio adeilad presennol. |
| | Draeniad mewn adeilad/estyniad newydd. | Clirio cafnau bargod a phibellau glaw. Adnewyddu/trwsio pibellau/cafnau unigol. | Draeniad mewn adeilad/estyniad newydd a thrwsio/adnewyddu (ond NID glanhau cafnau a phibellau). |
| | Draeniad. Adnewyddu'r cyfan/y rhan fwyaf o do presennol. | | Adnewyddu'r draeniad ar do presennol. |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| | Arall e.e. y sêl blwm a'r ffenestri to mewn adeilad/estyniad newydd, adnewyddu'r cyfan/y rhan fwyaf o do presennol. | Trwsio/adnewyddu/glanhau. | Y sêl blwm, ffenestri to mewn adeilad/estyniad newydd a thrwsio ac adnewyddu (ond NID glanhau) to presennol. |
| Arall | Darparu llwybr cyswllt dan do ac ati rhwng adeiladau presennol. | Mân atgyweirio, cynnal a chadw llwybr cyswllt dan do presennol. | Darparu llwybr cyswllt dan do a thrwsio'r un presennol (ond NID glanhau). Ailadeiladu neu drwsio adeiladwaith llwybr cyswllt dan do presennol. |
| | Ailadeiladu neu wella'r rhan fwyaf o adeiladwaith llwybr cyswllt dan do presennol. | | Ailadeiladu neu wella adeiladwaith llwybr cyswllt dan do presennol. |
| | Ychwanegu cyntedd ac ati i'r adeilad presennol. | Mân atgyweirio, cynnal a chadw'r un presennol. | Ychwanegu cyntedd newydd a mân atgyweirio'r un presennol. |
| | Ailadeiladu neu wella'r rhan fwyaf o adeiladwaith y cyntedd presennol. | | Ailadeiladu neu drwsio'r cyntedd presennol. |
| **Lloriau**<br>Y Llawr Isaf | Adeiladwaith a chwrs gwrth-damp mewn adeilad newydd. | Trwsio/adnewyddu rhannau bychain o adeiladwaith presennol. | Adeiladwaith a chwrs gwrth-damp mewn adeilad newydd a thrwsio/adnewyddu adeiladwaith presennol. |
| | Adeiladwaith a chwrs gwrth-damp – adnewyddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r adeiladwaith presennol. | | |
| | Sgrîd a gorffeniad adeilad newydd, adnewyddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o lawr presennol, e.e. adnewyddu'r rhan fwyaf o'r carped/teils mewn ystafell. | Adnewyddu a thrwsio sgrîd a gorffeniad/adnewyddu matiau/cafnau matiau. Cynnal a chadw, e.e. ail-farneisio lloriau pren. | Rhoi sgrîd a gorffeniad mewn adeiladau newydd (ond NID trwsio gorffeniad, cafnau matiau ac ati). |
| Y Llawr Uchaf | Adeiladwaith – fel y llawr isaf. | Fel y llawr isaf. | Adeiladwaith adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladwaith presennol. |
| | Sgrîd a gorffeniad – fel y llawr isaf. | Trwsio gorffeniad/ adnewyddu – fel y llawr isaf. | Fel y llawr isaf. |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| **Nenfydau**<br><br><u>Y Llawr Uchaf/ yr Unig Lawr</u> | Crog. | Trwsio/adnewyddu gan gynnwys difrod dŵr, ac unrhyw addurno angenrheidiol. | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| | Pilen. | | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| | Sefydlog. | Trwsio/adnewyddu gan gynnwys difrod dŵr. | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| | Paneli mynediad. | Trwsio/adnewyddu. | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| <u>Lloriau Isaf</u> | Crog. | Trwsio/adnewyddu. | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| | Pilen. | | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| | Sefydlog. | Trwsio/adnewyddu. | Darparu (ond NID trwsio nac adnewyddu). |
| <u>Y Cyfan</u> | Arbenigwyr i gael gwared ar/adnewyddu deunyddiau asbestos amherffaith/wedi symud – gwaith i'w gynllunio neu waith brys. | Arolygu/profion aer. Selio arwynebau asbestos er diogelwch. | Cael gwared ar/adnewyddu asbestos amherffaith/wedi symud OND pan fydd yn rhan o broject trwsio. |
| **Waliau Allanol**<br><br><u>Gwaith cerrig/cladin</u> | Tanategu adeiladwaith/ propio ar gyfer adeiladau newydd. | Trwsio. Mesurau ataliol, e.e. gwaredu coed. | Tanategu adeiladwaith/propio adeilad newydd a thrwsio (ond NID gwaredu coed oni bai bod hynny'n rhan o glirio safle newydd). |
| | Gorffeniad allanol ar adeiladau newydd. | Trwsio/adnewyddu rhannau bychain o adeiladwaith presennol, e.e. ail-bwyntio/ ail-orchuddio rhan o wal pan fydd diffyg ynddi. | Gorffeniad allanol ar adeilad newydd a thrwsio/adnewyddu adeiladwaith presennol gan gynnwys ail-bwyntio/ ail-orchuddio. |
| | Gorffeniad allanol ar adeilad presennol lle mae angen gwella rhan sylweddol o'r adeilad. | Mân ail-bwyntio ar adrannau unigol o'r adeilad. | Gwelliannau sylweddol i orffeniad allanol adeilad presennol. |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| Ffenestri a Drysau | Fframiau – adeilad newydd | Trwsio/adnewyddu fframiau unigol. Ailbaentio fframiau. | Fframiau newydd ffenestri a drysau adeilad newydd a thrwsio/adnewyddu (ond NID adnewyddu/trwsio/ail-baentio drysau neu ffenestri mewnol). |
| | Fframiau – rhaglen adnewyddu adeiladwaith lle mae'r adnewyddiad yn rhagori ar y fframiau blaenorol. | Trwsio/adnewyddu fframiau unigol. Ailbaentio fframiau. | Ffenestri newydd mewn rhaglen adnewyddu. |
| | Gwydro – adeilad newydd. | Adnewyddu gwydr wedi torri. | Gwydro adeilad newydd ac adnewyddu gwydr wedi torri. |
| | Gwydro – gwella gwydr presennol. | | Gwella gwydr presennol. |
| | | Trwsio/adnewyddu, gwella cloeon ac ati. | |
| | Addurno mewnol ac allanol mewn adeilad newydd. | Addurno mewnol ac allanol gan gynnwys glanhau a pharatoi ymlaen llaw. | Addurno mewnol ac allanol ar ddarpariaeth newydd, ailaddurno allanol (ond NID ailaddurno mewnol) |
| Simneiau Gwaith Cerrig | Gwelliant sylweddol o'r adeiladwaith presennol. | Trwsio/ail-bwyntio. | Gwelliant sylweddol o'r adeilad presennol a thrwsio/ail-bwyntio. |
| **Waliau Mewnol**<br><br>Soled | Cwblhau gan gynnwys amryw orffeniadau mewnol, leininau. Addurno. | Trwsio ac ailaddurno plastr/leininau, teils, pinfyrddau ac ati y tu mewn. | Waliau a gorffeniadau newydd (NID trwsio/adnewyddu). |
| | Adnewyddu a newid sylweddol. | Mân newidiadau. | |
| Parwydydd | Yr adeiladwaith cyfan gan gynnwys leininau, fframiau, gwydro, addurno, ac ati. | Trwsio ac ailaddurno | Parwydydd newydd (NID trwsio/adnewyddu. |
| | Adnewyddu a newid sylweddol. | Mân newidiadau. | |
| Drysau a Sgriniau | Fframiau/sgriniau/drysau adeiladau newydd gan gynnwys gwydro, nwyddau haearn, cymalu ac addurno mewnol. | Cynnal a chadw ac ailaddurno mewnol. Trwsio/adnewyddu drysau a sgriniau sydd ddim yn gweithio. | Darparu rhai newydd (NID trwsio/adnewyddu). |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| **Gwasan-aethau'r Ymolchfa**<br><br>Toiledau | Mewn adeiladau newydd, darparu'r holl ffitiadau toiled, plymwaith gwastraff a draeniad mewnol. | Trwsio/adnewyddu offer ymolchfa, ffitiadau, plymwaith gwastraff ac ati sydd wedi torri. | Darparu (NID trwsio/ adnewyddu offer ymolchfa sydd wedi torri). |
| | Adnewyddu toiledau ar raddfa fawr. | Adnewyddu ar raddfa fechan. | Darparu/trwsio (NID adnewyddu offer ymolchfa sydd wedi torri). |
| | Darparu cyfleusterau i'r anabl, a chyfleusterau arbenigol perthnasol i ddisgyblion â datganiadau. | Trwsio/adnewyddu ffitiadau, plymwaith gwastraff ac ati sydd wedi torri. | Darparu (NID trwsio/ adnewyddu ffitiadau ac ati sydd wedi torri) |
| Ceginau | Ceginau mewn adeiladau newydd, gyda'r ffitiadau, offer, plymwaith gwastraff a draeniad mewnol ynddynt. Gorffeniad ac addurno mewnol. | Cynnal ceginau i'r safon sy'n ofynnol gan yr ALl.<br><br>Glanhau systemau draeniad. Ailaddurno. | |
| | Adnewyddu cyffredinol sylweddol. | Trwsio. | |
| | Eitemau o offer mawr a chostus. | Trwsio/adnewyddu partiau. | |
| **Gwasan-aethau Mecan-yddol**<br><br>Gwresogi/ Dŵr Poeth | Systemau gwresogi a dŵr poeth cyflawn mewn projectau newydd, gan gynnwys tanwydd, storio, offer rheoli, dosbarthu, ffliwiau, ac ati. | Cynnal a chadw cyffredinol ar holl offer y boelerdy, gan gynnwys adnewyddu partiau diffygiol, cynnal a chadw rheolaidd a glanhau rheolaidd. | Darparu system gyflawn (NID trwsio/adnewyddu na chynnal a chadw). |
| | Symud ynysiad asbestos yn ddiogel oddi ar foeleri/pibellau os yw'n hen/yn ddiffygiol a bod perygl i Iechyd a Diogelwch. | Monitro systemau.<br><br>Materion Iechyd a Diogelwch. | |
| | Cynlluniau adnewyddu hen foeleri/systemau rheoli ar derfyn eu hoes a'u defnyddioldeb. | Adnewyddu partiau diffygiol. | |
| | Adnewyddu peiriannau/systemau'r boelerdy ar frys. | | |
| Dŵr Oer | Darparu gwasanaethau dŵr oer, tanciau storio, dosbarthu, cyfnerthyddion, riliau peipiau dŵr ac ati mewn projectau mawr. | Cynnal a chadw a thrwsio/adnewyddu partiau diffygiol megis pibellau cyswllt. Gwaith cynnal a chadw blynyddol ar danciau dŵr oer. | Darparu system gyflawn (NID adnewyddu na chynnal a chadw). |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| Nwy | Y gwaith dosbarthu ar systemau newydd ac adnewyddu sylweddol, unedau terfynell. | Trwsio, cynnal a chadw a diogelwch gyda nwy. Yr holl waith trin. | |
| Awyru | Awyru/tymheru mecanyddol ar brojectau sylweddol. | Darparu awyru yn lleol. Trwsio/adnewyddu systemau ac unedau diffygiol. | Darparu (NID trwsio/ adnewyddu). |
| Arall | Peiriannau pwll nofio a'u gosod i gyd, gan gynnwys systemau adfer gwres. | Trwsio/adnewyddu partiau i beiriannau, pympiau ac offer rheoli. Offer trin dŵr a holl beirianwaith y pibellau dosbarthu. Systemau syml i adfer gwres. Peiriannau ac offer gwresogi solar. | Os yw'r llywodraethwyr wedi darparu. |
| **Gwasan-aethau Trydanol**<br>Cyffredinol | Y prif offer switsio a dosbarthu ar brojectau mawr. | Profi/adnewyddu byrddau dosbarthu. Trwsio a chynnal a chadw'r holl offer switsio a cheblau cydgysylltiol gan gynnwys y rhai mewn adeiladau dros dro. | Darparu (NID trwsio/ adnewyddu na chynnal a chadw). |
| | Adnewyddu systemau gwifrau peryglus a hynafol, gan gynnwys byrddau dosbarthu. | Yr holl brofi, daearu a bondio i gwrdd â safonau Iechyd a Diogelwch. Yr holl waith trin | |
| Ynni | Gêr rheoli, dosbarthu, offer sefydlog, diogelu, ac ati. | Yr holl brofi, trwsio ac adnewyddu ar eitemau bychain o offer. | Darparu (NID trwsio/ adnewyddu). |
| Goleuo | Darparu goleuadau a golau achosion brys. | Adnewyddu goleuadau, yr holl brofi, cymwysiadau, a gwelliannau i olau achosion brys. | Darparu (NID trwsio/ adnewyddu). |
| Arall | Atalwyr mellt mewn adeiladau newydd. | Trwsio/adnewyddu. | Darparu a thrwsio. |
| | Systemau larwm, teledu cylch cyfyng, lifftiau/taclau codi, ac ati. | Trwsio/cynnal a chadw. | Darparu (NID trwsio na chynnal a chadw). |

| Elfen | Cyfalaf: Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA | Refeniw: Trwsio/Cynnal a Chadw | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Manylion llawn yn nogfen y DfES "Determination Of Financial Liability") |
|---|---|---|---|
| | Gosod systemau cyfathrebu newydd, radio/teledu, system alwadau, teleffon, trosglwyddo data, TG ac ati, a'u darparu mewn adeiladau newydd. | Trwsio/adnewyddu/cynnal a chadw, gan gynnwys holl systemau mynediad y drysau. | |
| **Gwaith Allanol**<br><br>Palmantau | Darparu ffyrdd, meysydd parcio, llwybrau, cyrtiau, terasau, meysydd chwarae, grisiau a chanllawiau newydd, yn rhan o broject mawr, gan gynnwys mynediad i'r anabl. | Cynnal a chadw, trwsio a marcio meysydd parcio a mannau chwarae. | Darparu os yw'n rhan o broject statudol arfaethedig (NID trwsio na chynnal a chadw).<br><br>Darparu a thrwsio rampiau a stepiau. |
| Amrywiol | Darparu waliau, ffensio, ffensys, clwydi ac adeiladau ategol yn rhan o broject mawr. | Cynnal a chadw a thrwsio yr holl waliau terfyn allanol/ terfyn/cynnal, ffensys a chlwydi. | |
| Draeniad | Draeniau, ffosydd cerrig, siambrau archwilio a pheiriannau trin carthion yn rhan o brojectau newydd. | Cynnal a chadw a thrwsio draeniau, cwteri, trapiau saim a thyllau archwilio rhwng adeiladau a'r prif garthffosydd. Glanhau'r uchod a'u dadflocio yn ôl y galw. | Draeniad budreddi ynghyd â chafnau bargod a phibellau glaw (NID cynnal a chadw). |
| Pyllau Awyr Agored | Adeiladwaith, hylendid/ diogelwch mewn adeiladau newydd. | Hylendid, glanhau, cynnal a chadw a thrwsio, gan gynnwys partiau newydd.<br><br>Systemau syml i arbed ynni. | Os yw'r llywodraethwyr wedi'u darparu. |
| Dosbarthiad Gwasan-aethau | Prif gyflenwad gwres, prif gyflenwad nwy, prif gyflenwad dŵr, prif gyflenwad trydan, adnewyddu unrhyw un o'r uchod. | Gwaith cynnal a chadw blynyddol. | Cymorth grant ar gyfer darparu (ond NID ar gyfer trwsio). |